



RhCT DIGIDOL EIN STRATEGAETH DDIGIDOL I YSGOLION 2020–2025

ARLOESI RHCT
LLYWIO TRAWSFFURFIAD DIGIDOL



INNOVATE RCT
DRIVING DIGITAL TRANSFORMATION



RhCT Digidol – EIN STRATEGAETH DDIGIDOL I YSGOLION 2020-2025

Cynnwys

1. Pwrpas a Chyfeiriad
2. Cyd-destun Digidol
3. Ein Gweledigaeth a'n Huchelgais
4. Ein Map Ffordd Digidol – Llinynnau Strategol
 - 4.1 Seilwaith Digidol
 - 4.2 Cynllunio a Chynaliadwyedd
 - 4.3 Dysgu mewn Ystafell Ddosbarth Ddigidol
 - 4.4 Gwasanaethau Digidol
 - 4.5 Hawl Disgyblion / Diogelu Disgyblion
5. Canlyniadau a Chyflawniadau'r Strategaeth
6. Dangosyddion Cyflawniad Allweddol
9. Atodiadau

Pwrpas a Chyfeiriad

Mae trawsffurfio digidol yn digwydd o'n cwrpas ar gyflymder cynyddol. Yn ein bywydau beunyddiol, mae'r ffordd rydyn ni'n cyfathrebu, yn rhannu syniadau, yn prynu ein nwyddau wythnosol, neu'n ymgysylltu â theulu a ffrindiau a'r byd o'n cwrpas yn dibynnu fwyfwy ar sgiliau, gwybodaeth a dyfeisiau digidol.



Mae addysg bob amser wedi esblygu i gofleidio technolegau newydd ac i ymateb i'r newidiadau o'n cwrpas i gyfarparu ein pobl ifainc â'r sgiliau sy'n angenrheidiol i gofleidio'r newid ac i fyw bywydau llawn a chynhyrchiol.

Mae esblygu bob amser wedi golygu ymateb. Nawr yn fwy nag erioed, mae angen i addysg arwain y newid digidol, gan ddangos yr hyn sy'n bosibl a darparu'r sgiliau sy'n angenrheidiol nid yn unig i addasu a mabwysiadu ond i greu agenda sy'n diwallu anghenion yr holl ddisgyblion a phobl ifainc.

Mae ein strategaeth yn nodi'r sefyllfa ar hyn o bryd a'n huchelgeisiau ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Bydd pum mlynedd yn gweld llawer iawn o newidiadau. Bydd rhai yn deillio o angen megis ein hymateb i bandemig 2020/21 ond bydd eraill yn deillio o'r awydd i wella mynediad i fyd addysg i bawb (o'r blynyddoedd cynnar hyd at bobl hŷn) sydd am esblygu gyda'r byd sy'n newid o'i gwmpas.

Diben y strategaeth yma yw:

- Rhoi amlinelliad o nodau ac uchelgeisiau'r Cyngor ar gyfer datblygu system ddigidol, ddibynadwy a chadarn y mae modd ei hehangu, sy'n galluogi ac yn ysbrydoli arloesedd yn y defnydd o dechnoleg ar gyfer pob disgybl ac addysgwr yn Rhondda Cynon Taf.
- Diwallu a datblygu'r anghenion a'r disgwyliadau digidol cynyddol ym myd addysg ac yn yr ysgolion.
- Datblygu sgiliau digidol pob disgybl i sicrhau mynediad at swyddi sy'n gofyn am fedrusrwydd yn y gweithle, nawr ac yn y dyfodol.
- Datblygu darpariaeth dechnolegol i ysgolion yn unol â Rhaglen Trawsffurfio HWB a darparu arweinyddiaeth ym maes dysgu digidol.
- Datblygu'r uchelgeisiau a gafodd eu nodi yn [Strategaeth Ddigidol RhCT 2020](#).
- Cefnogi Cenhadaeth ein Cenedl.

Cyd-destun Digidol

Mae TGCh a Gwasanaethau Digidol y Cyngor wedi datblygu'n gyflym dros y 5 mlynedd diwethaf. Mae swm sylweddol o arian wedi cael ei fuddsoddi mewn prosiectau cysylltedd a systemau cyfathrebu er budd ysgolion a disgyblion ledled yr awdurdod lleol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau mynediad i HWB i'r holl staff ac i bob disgybl, cyfathrebu electronig effeithiol, mynediad i adnoddau cwmwl a man ganolog ar gyfer cadw dogfennau hyfforddi a pholisïau.

Mae cyfathrebu a gweinyddu wedi cael eu digideiddio'n sylweddol ac mae dulliau 'storio cwmwl' yn ganolog ar gyfer trosglwyddo, casglu a chadw data wedi'u gweithredu. Mae hynny wedi arwain at ddiogelwch gwell a'r modd i drosglwyddo data a gwybodaeth rhwng yr ysgolion a'r gwasanaeth canolog yn gyflymach.



Mae gofynion cysylltedd dysgu digidol yn parhau i gynyddu'n sylweddol wrth i dechnoleg newydd ddod yn fwyfwy hygyrch i ysgolion. Mae'r Cyngor, trwy ei grŵp strategaeth TGCh, yn cynnal perthynas effeithiol ag uwch arweinwyr ac ymarferwyr i sicrhau bod seilwaith a darpariaeth TG a gwasanaethau digidol yn ateb gofynion cynyddol y cwricwlwm.

Yn fwyaf diweddar, mae'r [Fframwaith Cymwyseddau Digidol](#)

wedi ei gwneud hi'n ofynnol i ysgolion gynnwys hyrwyddwyr digidol yn eu strwythur staffio. Mae'r fframwaith hefyd wedi arwain at ragor o fuddsoddi mewn technoleg a hyfforddiant i staff, gan ddatblygu'r dulliau digidol cyfredol o ddarparu dysg ar gyfer pob grŵp oedran.

Wrth i ysgolion greu eu gweledigaeth ar gyfer y [cwricwlwm newydd](#), bydd trawsffurfio digidol yn ei gwneud hi'n bosibl i ni newid y ffordd rydyn ni'n darparu cyfleoedd dysgu ac yn ymateb i'r newid hwnnw. Bydd hefyd yn newid y ffordd rydyn ni'n cydweithio ac yn darparu ffyrdd newydd a chyffrous o ymgysylltu â dylanwadau ehangach ar ein profiadau dysgu.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y gofynion ar bob ysgol i ddarparu addysg mewn oes ddigidol. Agwedd allweddol ar y strategaeth yw helpu'r ysgolion i esblygu eu darpariaeth gan ystyried technolegau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg, mewn amgylchedd diogel.

Rydyn ni'n datblygu ein 'Strategaeth Ddigidol i Ysgolion' mewn cyd-destun lle mae buddsoddiad sylweddol ar waith gan Lywodraeth Cymru. Mae [prosiect trawsffurfio HWB](#) yn rhaglen ariannu aml-flwyddyn, sydd â'r nod o herio a newid y dirwedd ddigidol mewn ysgolion yn sylfaenol, gan ddatblygu dull cwbl gynaliadwy, safonol a chyson gyda darpariaeth ddigidol yn cael ei hystyried yn 'bedwerydd cyfleustod.' Nodau strategol hirdymor y rhaglen yma yw:

- gwella safonau a chanlyniadau addysgol
- paratoi disgyblion ar gyfer bywyd a gyrfaedd
- gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd y mae darpariaeth ddigidol yn ei chynnig i leihau'r baich ar ein gweithlu
- bod yn gefn i economi ehangach Cymru

Ein Gweledigaeth a'n Huchelgais

Bydd ein huchelgeisiau trawsffurfio digidol yn cyflawni gwelliannau ar draws y Cyngor, yn unol â [Safonau a Chanllawiau Digidol Addysg HWB](#) yn y lle cyntaf. Serch hynny, mae ein gweledigaeth ni yn llawer ehangach. Rydyn ni am sicrhau budd gwirioneddol i'n disgyblion, eu hathrawon, eu cymunedau, a phob disgybl o bob oed.

Ein gweledigaeth yw gwneud Cyngor Rhondda Cynon Taf yn arweinydd ac yn sefydliad sy'n defnyddio'r ochr ddigidol i helpu i drawsffurfio ein hysgolion. Rydyn ni o'r farn bod modd i ni fanteisio ar botensial digidol i wella ansawdd addysg ar gyfer holl ddisgyblion ein Bwrdeistref trwy'r camau gweithredu wedi'u nodi yn y strategaeth yma.

Mae ein gweledigaeth yn glir. Bydd y cynllun yn cyflawni:

Cydraddoldeb o ran mynediad a darpariaeth ar gyfer pob disgybl/myfyriwr/dysgwr ledled y Fwrdeistref Sirol sy'n cefnogi rhagoriaeth a chyflawniad uchel mewn amgylchedd creadigol, cyffrous, a thechnolegol gyfoethog, gan sicrhau llwyddiant, gwerthfawrogi amrywiaeth, magu hunan-barch, a hyrwyddo sgiliau ac agweddau dysgu gydol oes.

Wrth gyflawni ein gweledigaeth a'n huchelgais, bydd y Cyngor yn cefnogi'r blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer Cymru gan gynnwys Cenhadaeth y Genedl ([Cenhadaeth y Genedl – Diweddariad Hydref 2020](#)) ac adlewyrchu uchelgeisiau '[Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#)'.

Llinynnau Strategol

Mae ein strategaeth wedi cael ei ddatblygu yn dilyn adolygiad trylwyr o arferion gorau ac enghreifftiau sy'n arwain y sector. Mae ein strategaeth yn cynnwys 5 llinyn craidd gydag 1 elfen hanfodol sy'n sail iddyn nhw. Trwy gyfuno'r rhain mae modd gwneud newid go iawn ym mhob ysgol yn RhCT.

WELSH FOR DIAGRAM BELOW HERE

Seilwaith Digidol

Adoption of National Digital Infrastructure Standards

Mabwysiadu'r Safonau Seilwaith Cyfathrebu Digidol Cenedlaethol

“O ystyried graddfa a chyflymder y newid, mae'n debygol y bydd llawer o blant yn yr ysgol gynradd heddiw yn gweithio mewn swyddi sydd naill ai ddim yn bodoli heddiw, neu o leiaf mae'r tasgau cyfansoddol yn wahanol iawn i rai heddiw” Dyfodol Gwaith yng Nghymru, Mair Bell, Dan Bristow a Steve Martin, Sefydliad **Polisi Cyhoeddus i Gymru (1 Tachwedd 2017)**

Mae RhCT fel Cyngor yn cydnabod, yn deall ac yn cefnogi'r rhan gynyddol mae Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu a darpariaethau digidol yn ei chwarae ym mywydau ei holl drigolion. Mae 'Strategaeth Ddigidol i Ysgolion' y Cyngor yn cydnabod y ddibyniaeth gynyddol ar dechnoleg y mae'r cwricwlwm newydd yn ei hyrwyddo, i gynorthwyo disgyblion yn eu haddysg a'u paratoi ar gyfer eu bywydau gwaith wrth i Gymru gynllunio ar gyfer ei diwygiadau trawsffurfiol ac yn eu cyflawni.

Er mwyn sbarduno diwygiadau yn y gwasanaethau i ysgolion yn RhCT, mae'r 'Strategaeth Ddigidol i Ysgolion' yn nodi pum llinyn strategol y mae modd eu gweld yn ein Map Ffordd Digidol sy'n ffurfio'r cynllun gweithredu dros y pum mlynedd nesaf.



Mae pob agwedd ar y 'Strategaeth Ddigidol i Ysgolion' yn canolbwyntio ar wella cysylltedd a dibynadwyedd gan alluogi disgyblion, athrawon, arweinwyr ysgol a phob gweithiwr addysg proffesiynol i fod yn gyfranogwyr gweithredol ym meysydd allweddol Dysgu Proffesiynol, Ymchwil Addysgol a darparu profiadau dysgu, wrth ymgysylltu â phawb sydd â buddiant mewn ystod eang o fformatau.

Wrth i dechnoleg chwarae rhan gynyddol ddominyddol yn y broses newid i ysgolion, mae mynediad at rwydweithiau cydnerth yn sbardun allweddol i gysylltu disgyblion ac ysgolion, darparu mynediad at ymchwil ledled y byd, rhannu ein harferion gorau a datblygu a hyrwyddo carfanau mwy effeithiol.

Yr hyn rydyn ni'n ei wneud:

Mabwysiadu'r [Safonau a Chanllawiau Digidol Addysg Cenedlaethol](#)

- Mae gan y Cyngor ddyluniad cytunedig ar gyfer seilwaith y rhwydwaith ym mhob ysgol. Mae'r cynllun cytunedig ar gyfer seilwaith y rhwydwaith yn cael ei weithredu yn rhan o'r gwaith i wella'r rhwydwaith ym mhob sefydliad addysgol gan sicrhau bod pob ysgol yn cydymffurfio â Safonau Digidol HWB.
- Mae gan y Cyngor [Gytundeb Lefel Gwasanaeth TGCh](#) sy'n nodi'n glir y bydd adnewyddu seilwaith y rhwydwaith mewn ysgolion yn cael ei arwain a'i reoli gan y Cyngor a'i swyddogion.
- Mae'r Cyngor wedi gweithredu mecanwaith newydd ar gyfer monitro effeithiolrwydd rhwydweithiau i sicrhau bod pob rhwydwaith ysgol yn darparu seilwaith dibynadwy.
- Mae'r Cyngor wedi rhoi system dechnegol ar waith ym mhob ysgol gynradd sy'n ailgyfeirio eu holl lif data yn syth i'r Prosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus (PSBA). Mae hyn wedi gwella cyflymder y rhyngwrdd a dibynadwyedd y rhwydwaith yn sylweddol.
- Mae'r Cyngor wedi creu [Glaslun Technegol](#) y mae'n ofynnol i bob ysgol ei ddilyn ar gyfer cymorth technegol.

Yr hyn byddwn ni'n ei wneud:

Bydd y Cyngor yn:

- Darparu mesurau cyflawniad ac amseroedd ymateb clir os na fydd y gwasanaeth yn cyrraedd y mesurau yma.
- Rhoi system dechnegol ar waith ym mhob ysgol uwchradd, bob oed ac arbennig sy'n ailgyfeirio eu holl lif data yn syth i'r Prosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus (PSBA).
- Darparu canllawiau cliriach ar Gyfrifoldebau Landlordiaid Corfforaethol gan helpu ysgolion i ddiogelu eu disgyblion ac i gadw at Safonau a Chanllawiau Digidol Addysg Llywodraeth Cymru.
- Parhau i fonitro'r safonau sy'n ofynnol ar gyfer seilweithiau rhwydwaith ysgolion a darparu arweiniad i ysgolion pan fydd angen newidiadau. Bydd hyn yn cynnwys defnyddio rhwydweithiau fydd yn helpu'r Cyngor i sicrhau bod digon o led band ar gael i bob ysgol. Bydd hyn yn sicrhau darpariaeth ddigidol o'r safon uchaf.
- Gweithredu rhaglen adnewyddu dreigl, yn seiliedig ar amserlen adnewyddu deng mlynedd, i sicrhau bod yr holl offer rhwydwaith mewn ysgolion yn parhau i fod yn gyfredol ac yn seiliedig ar safonau cenedlaethol diwygiedig.
- Darparu rhaglen glir i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ac i roi gwybod am y dechnoleg ddiweddaraf i arweinwyr a rheolwr rhwydwaith ysgolion, er mwyn sicrhau cysondeb a chydymffurfiaeth ym mhob ysgol.

- Cynnal archwiliadau rheolaidd (gan gynnwys rhai rhithwir) i sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau rhwydwaith a phrotocolau diogelwch.
- Darparu cymorth technegol, strategol ac addysgol i bob ysgol trwy ei CLG craidd. Bydd hyn yn cynnwys Cyngorydd Strategol yn gweithio gydag ysgolion i sicrhau bod strategaeth a gweledigaeth y Cyngor yn cael eu gweithredu'n gyson ym mhob ysgol.

Goblygiadau i ysgolion, arweinwyr ysgol a llywodraethwyr:

Bydd arweinwyr yr ysgolion yn cydnabod yr angen i gynnal a datblygu eu rhwydweithiau i ddarparu cysylltedd o safon uchel ar gyfer cyflwyno cwricwlwm eang, cytbwys a chynhwysol i'r holl ddisgyblion.

Bydd angen i ysgolion:

- Ystyried darparu gwasanaethau digidol fel y pedwerydd cyfleustod, gan roi'r un flaenoriaeth iddo â dŵr, nwy a thrydan.
- Ymgysylltu â'r [CLG TGCh](#) blynyddol i sicrhau eu bod yn cofrestru yn y rhaglen adnewyddu ar gyfer seilwaith eu rhwydwaith craidd.
- Datblygu strategaeth ddigidol tair i bum mlynedd sy'n cyd-fynd â Strategaethau Digidol RhCT, ystyried gofynion digidol Cwricwlwm 2022 newydd ac anelu at ddarparu tair elfen graidd Strategaeth Ddigidol Llywodraeth Cymru, sef safoni, cynaliadwyedd a chysondeb.
- Dilyn canllawiau'r Cyngor ynghylch cymorth ar gyfer y rhwydweithiau TG yn yr ysgolion.

Dylai ysgolion ystyried:

- Sut mae gofynion digidol y pum mlynedd nesaf yn mynd i effeithio ar eu cwricwlwm a sut maen nhw'n cynllunio darpariaeth.
- Sut i nodi bod sgiliau digidol yn gwella ac yn cefnogi canlyniadau i ddisgyblion ac yn hwyluso mynediad i addysg bellach neu uwch, prentisiaethau, neu gyflogaeth pan fydd disgyblion yn gadael yr ysgol.
- Sut mae eu penderfyniad cyllidebol yn adlewyrchu gofynion dysgu digidol.
- Sut mae eu rhwydwaith yn cael ei reoli a'i gefnogi a sut mae goruchwyliaeth agos yn cael ei rheoli gan uwch arweinydd penodedig. [Goblygiadau i arweinwyr ysgol – Canllawiau Cymorth Technegol](#)

Mae cysylltiad agos iawn rhwng allgau technoleg ddigidol ac ariannol. Gall bod â'r sgiliau a'r mynediad at dechnoleg ddigidol gynyddu cynhwysiant ariannol yn aruthrol. Mae bod â'r gallu i ddefnyddio'r rhwydwaith i brynu nwyddau a gwasanaethau hanfodol yn gallu dod ag arbedion sylweddol i deuluoedd sy'n wynebau anawsterau ariannol.' [Gwella bywydau pobl trwy dechnolegau digidol](#) Rhagfyr 2020

Cynllunio a Chynaliadwyedd

Cynaliadwyedd wedi'i seilio ar Gynllun Digidol a Chyllidebol pum mlynedd

'Rydym yn herio ac yn newid y tirlun digidol mewn ysgolion, gan ddatblygu dull cwbl gynaliadwy, safonol a chyson gyda digidol yn cael ei weld fel y 'pedwerydd cyfleustod'. Nodau strategol hirdymor y rhaglen yma yw:

- gwella safonau a deilliannau addysgol
- paratoi disgyblion ar gyfer bywyd a gyrfaedd
- gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd y mae digidol yn eu cyflwyno i leihau'r baich ar ein gweithlu • cefnogi economi ehangach Cymru'.

[Rhaglen Hwb: trosolwg strategol o wasanaethau digidol ar gyfer ysgolion a gynhelir yng Nghymru](#)

Mae'r pandemig diweddar wedi dangos yn glir pa mor hanfodol yw manteisio ar y datblygiadau technolegol diweddaraf i gysylltu a chefnogi pobl mewn byd sy'n gynyddol ddigidol. Mae'r ysgolion wedi addasu'n gyflym, gan ddefnyddio adnoddau digidol i gynnal cysylltiadau ag addysg i ddisgyblion ledled y Cyngor. Ni fu cyfnod erioed sydd wedi dangos pa mor bwysig fu penderfyniadau ynghylch cyllido offer digidol i ysgolion a'r Cyngor.

Drwy raglen Hwb (Dysgu yn y Gymru Ddigidol gynt), mae Llywodraeth Cymru, gan gydweithio gydag awdurdodau lleol ar hyd Cymru, wedi buddsoddi'n sylweddol mewn meysydd megis band eang cyflym, seilwaith yn yr ysgolion a Llwyfan Dysgu Digidol HWB. Mae tair elfen graidd i Brosiect 'Trawsffurfio Digidol yn yr Ysgolion' Llywodraeth Cymru: Safoni, Cynaliadwyedd a Chysondeb.

Bydd y prosiect yn cael ei gyflawni mewn nifer o 'Donnau' gan ddod â buddsoddiad a gwelliannau sylweddol i seilwaith TG yr ysgolion gyda ffocws clir ar gysylltedd a dibynadwyedd ac ar foderneiddio'r seilwaith i sicrhau cyfleoedd dysgu'r 21ain ganrif.

Yr hyn rydyn ni'n ei wneud:

Mae'r Cyngor yn:

- darparu cyllid i'r ysgolion trwy Brosiect Trawsffurfio HWB, er mwyn iddyn nhw brynu adnoddau digidol ychwanegol.
- Nodi cymhareb 1 ddyfais i bob 2.4 disgybl fel targed cychwynnol gyda dyhead am 1 ddyfais i bob 2 ddisgybl erbyn diwedd llinell amser y strategaeth.
- Helpu'r ysgol i gael y gwerth gorau am arian trwy ddefnyddio catalogau Technoleg Addysg HWB.

Yr hyn byddwn ni'n ei wneud:

Bydd y Cyngor yn:

- Ymgysylltu ag ysgolion a'u helpu i wneud penderfyniadau sy'n dilyn tair egwyddor graidd Rhaglen HWB, sef cynaliadwy, safonol a chyson.
- Parhau i ymgysylltu'n llawn â Rhaglen Trawsnewid HWB gan adnewyddu'r seilwaith a'r adnoddau digidol yn y Sir.

- Datblygu modelau ariannol o gyllid ysgolion sy'n cefnogi'r agenda cynaliadwyedd ar gyfer cyllid digidol.
- Darparu cynllun prynu asedau fel y bydd modd i ysgolion gael dyfeisiau o ansawdd uchel am y pris mwyaf cost-effeithiol trwy fframwaith prynu Cymru gyfan.
- Adolygu effaith y strategaeth yma a'i haddasu wrth i dechnolegau newydd a all wella ein darpariaeth ddigidol ddod i'r amlwg.

Goblygiadau i ysgolion, arweinwyr ysgol a llywodraethwyr:

Bydd arweinwyr yr ysgolion yn cydnabod yr angen i gynnal a datblygu eu rhwydweithiau i ddarparu cysylltedd o safon uchel ar gyfer cyflwyno cwricwlwm eang, cytbwys a chynhwysol i'r holl ddisgyblion.

Bydd angen i ysgolion:

- Ystyried darparu gwasanaethau digidol fel y pedwerydd cyfleustod, gan roi'r un flaenoriaeth iddo â dŵr, nwy a thrydan.
- Datblygu strategaeth ddigidol tair i bum mlynedd sy'n cyd-fynd â Strategaethau Digidol RhCT, ystyried gofynion digidol Cwricwlwm 2022 newydd ac anelu at ddarparu tair elfen graidd Strategaeth Ddigidol Llywodraeth Cymru, sef safoni, cynaliadwyedd a chysondeb.
- Ystyried penderfyniadau cyllidebol sy'n adlewyrchu gofynion dysgu digidol.
- Sicrhau bod yr holl dechnoleg a dyfeisiau, gan gynnwys dyfeisiau symudol, yn parhau i fod yn berthnasol i'r gofynion cyfredol trwy sefydlu rhaglen dreigl pum mlynedd ar gyfer adnewyddu technoleg.
- Ymgysylltu'n llawn â chynllun y Cyngor ar gyfer prynu asedau fel bydd modd i ysgolion gael dyfeisiau o ansawdd uchel am y pris mwyaf cost-effeithiol trwy fframwaith prynu Cymru gyfan.

“Mae ein gwerthfawrogiad o'r term cymharol newydd 'lodi data' wedi datblygu ers dechrau'r pandemig. Cyn mis Mawrth 2020, roedd ein dealltwriaeth o'r term yn canolbwyntio ar ddiffyg adnoddau personol i gael gafael ar nwyddau a gwasanaethau ar-lein; naill ai gostau ariannol prynu'r dechnoleg a/neu gysylltu; costau parhaus band eang neu ddata, cysylltedd cyfyngedig oherwydd signal gwael.”

[Cynhwysiant Digidol – Edrych Ymlaen: tuag at Gymru sy'n hyderus yn ddigidol. Rhagfyr 2020](#)

Dysgu yn yr Ystafell Ddosbarth Ddigidol

Ymagwedd HWB a Chyfrifiadura Cwmwl at Ddysgu Digidol

Yn 'Successful Futures' 2015, mae'r Athro Donaldson yn ysgrifennu y dylai athrawon fabwysiadu dull cyfunol o ddysgu. Mewn cyd-destun digidol, mae 'Dysgu Cyfunol' yn digwydd pan fydd disgybl yn dysgu'n rhannol trwy ystafelloedd dosbarth traddodiadol gydag athrawon ac yn rhannol trwy ddulliau digidol. Mae gan y disgybl rywffaint o reolaeth dros pryd, ble a sut mae dysgu'n digwydd. Mae angen ei gynllunio'n ofalus i ddiwallu anghenion disgyblion unigol. Gallai dysgu cyfunol hefyd gynnwys cyfarwyddyd athrawon, gwaith grŵp, sesiynau tiwtorial, gweithdai a gweithgareddau megis defnyddio deunyddiau dysgu o bell, gwefannau, deunyddiau rhyngweithiol, podlediadau a rhith-realiti.

Dysgu yn yr ystafell ddosbarth ddigidol.

I fod yn llwyddiannus, mae angen i'r ystafell ddosbarth ddigidol ddarparu cysylltedd safon uchel, technoleg gydnerth a dibynadwy, a chanolbwyntio ar ganlyniadau'r disgyblion ac nid ar y defnydd penodol o dechnoleg.

Yn Rhondda Cynon Taf, bydd ein hystafelloedd dosbarth digidol yn canolbwyntio ar ddatblygiad y disgybl mewn modd cyfannol, gan roi cyfle iddi/iddo ddatblygu'r sgiliau digidol a'r sgiliau bywyd sydd eu hangen i ddod yn ddinesydd iach, gwydn a chynhyrchiol mewn byd gwaith mae'n bosibl na fyddwn ni'n ei adnabod yn 2021.




Yn Rhondda Cynon Taf, diffiniad ystafell ddosbarth ddigidol yw unrhyw ardal lle mae modd i ddisgybl gael addysg ffurfiol ac anffurfiol. Gall hyn fod mewn lleoliad ysgol ffurfiol neu 'o bell' mewn ystafelloedd dosbarth cysylltiedig, ardaloedd gwaith neu gartref. Bydd ein strategaeth yn canolbwyntio ar ystafelloedd dosbarth sydd wedi'u cysylltu trwy ddefnyddio technoleg ddiwifr, gan ddarparu cysylltedd o fewn a thu hwnt i'r ystafell ddosbarth uniongyrchol a chyfleoedd i gynnal cysylltedd wrth ddysgu yn yr awyr agored.

Bydd disgyblion yn cyrchu'r adnoddau a'r gwaith sydd eu hangen arnyn nhw lle bynnag maen nhw'n dysgu. Bydd cysylltiadau â'r ysgol o'r cartref neu i ffwrdd o amgylchedd yr ysgol yn cael eu hwyluso trwy dechnoleg Cwmwl yn seiliedig ar seilwaith HWB a Microsoft.

Mae ein strategaeth yn dibynnu ar ysgolion yn darparu mynediad at ystod eang o dechnoleg, gan gynnwys gliniaduron, Chromebooks, iPads, a dyfeisiau digidol eraill.

Mae ystafell ddosbarth ddigidol yn RhCT yn darparu'r canlynol i bob disgybl:

- y profiadau sydd eu hangen i ddatblygu a dysgu'r sgiliau sy'n ofynnol i gyflawni [pedwar diben craidd](#) ein cwricwlwm cenedlaethol.
- y profiadau sydd eu hangen i hyrwyddo eu lles corfforol a meddyliol a deall sut i wneud dewisiadau ffordd iach o fyw.
- y sgiliau a'r profiad sydd eu hangen i elwa ar ddysgu o bell a dull dysgu cyfunol.
- y cyfle i ddatblygu lefelau uchel o lythrennedd, rhifedd a sgiliau digidol.
- y profiadau sy'n helpu pobl ifainc i baratoi ar gyfer cyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau bywyd fel oedolyn, gan gynnwys addysg am yrfaeod a'r byd gwaith.
- Mae ystafell ddosbarth ddigidol yn RhCT yn cefnogi ymgysylltiad gweithredol rhieni/gwarcheidwaid ym mhrofiadau dysgu eu plant.



Ymagwedd HWB a Microsoft Cloud

Mae Cyngor RhCT yn defnyddio Microsoft 365 fel ei gynnyrch meddalwedd craidd. Mae'r fersiynau adnabyddus o feddalwedd Microsoft yn cael eu defnyddio gan y mwyafrif o weithwyr ar gyfer anfon dogfennau at gydweithwyr, i adrannau ac i ysgolion. Outlook sy'n cael ei ddefnyddio gan amlaf i anfon negeseuon e-bost. Dros y deng mlynedd ddiwethaf, mae'r Cyngor wedi dechrau defnyddio'r cwmwl ar gyfer storio data. Mae Microsoft 365 a OneDrive yn cael eu defnyddio fwyfwy gan weithwyr, sy'n effeithiol ac sy'n sicrhau diogelwch y data.



Mae Rhaglen HWB yn darparu cynhyrchion Microsoft i bob disgybl. Mae'r rhain ar gael trwy'r platfform HWB. Caiff disgyblion lawrlwytho fersiynau trwyddedig o feddalwedd Microsoft 365 i sawl un o'u dyfeisiau, gan gynnwys gliniaduron ac ystod eang o ddyfeisiau symudol.

Mae dewis Microsoft 365 wedi dod â llawer o fanteision o ran cost i'r Cyngor a'r ysgolion. Mae defnyddio'r un feddalwedd drwyddi draw yn hwyluso hyfforddiant a'r defnydd o'r rhaglenni sydd yn gwella cynhyrchiant. Mae storio negeseuon e-bost a data yn y cwmwl yn lleihau'r angen am weinyddion, gan leihau'r gost gyffredinol, y gofod sydd ei angen ar gyfer storio gweinyddwyr a'r egni sydd ei angen i'w pweru yn effeithlon.

Bydd y buddion yma'n helpu i leihau costau yn yr ysgol ac yn y cyfnod yma o galedi ariannol a chyllidebau heriol, bydd hyn o fudd i ddisgyblion trwy ryddhau arian yn uniongyrchol ar gyfer addysg.




Hwb yw'r [llwyfan digidol ar gyfer dysgu ac addysgu yng Nghymru](#). Mae Hwb yn ei gwneud hi'n bosibl i'w defnyddwyr gael ystod o offer ac adnoddau digidol, dwyieithog sy'n cael ei ariannu'n ganolog. Dyma sianel ddigidol strategol Llywodraeth Cymru sy'n gymorth wrth gyflwyno'r cwricwlwm yng Nghymru. Yn Rhondda Cynon Taf, rydyn ni'n annog pob un o'n hysgolion i ymgysylltu'n weithredol â llwyfan digidol Hwb, er mwyn darparu dysg i'n holl ddisgyblion mewn amgylchedd diogel a system effeithlon o ran cost i'n holl ysgolion.

Nid cyfarwyddo ysgolion i weithio mewn unrhyw ffordd benodol yw polisi'r Cyngor, na defnyddio meddalwedd benodol at ddibenion addysgu a dysgu. Serch hynny, yn rhan o'i gyfrifoldebau strategol ledled y Cyngor, mae angen egwyddorion allweddol i ddod â chydnerthedd a gwerth am arian. Mae modd cyflawni hyn trwy gysoni'r ffyrdd o weithio at ddibenion gweinyddu a darparu gwasanaeth.

Yr hyn rydyn ni'n ei wneud:

Mae'r Cyngor yn ceisio ymgysylltu â phob ysgol i alluogi, grymuso a hyrwyddo dysgu digidol a chyfunol fel offer effeithiol y mae ysgolion yn cael eu hannog i'w darparu ar gyfer pob disgybl. Y strategaeth yw defnyddio adnoddau Hwb i ddatblygu partneriaethau dysgu (Ystafelloedd Dosbarth Cysylltiedig) rhwng ysgolion a rhwng sefydliadau fel prifysgolion, sefydliadau addysg bellach a busnesau, gan gynnwys y rheini dramor. Mae gan NASA fodel dysgu o bell adnabyddus sy'n annog ymgysylltiad o bob cwr o'r byd.



Mae'r Cyngor yn:

- Adeiladu ein gallu digidol trwy weithredu'r prosiect trawsffurfio HWB, gwella isadeileddau rhwydwaith ysgolion i fodloni gofynion addysg yr 21^{ain} ganrif.
- Datblygu strategaeth ddigidol i ysgolion sy'n hyrwyddo Llwyfan Dysgu Digidol HWB a dull Microsoft Cloud First.
- Gweithredu datrysiad meddalwedd craidd sy'n cael ei arwain gan Microsoft gan adeiladu ar y cytundebau trwydded cenedlaethol, datblygu cysondeb ym mhob ysgol ac o fewn y Cyngor gan ddefnyddio'r cwmwl ar gyfer storio digidol, rhannu adnoddau a diogelwch ac uniondeb data.

Yr hyn byddwn ni'n ei wneud:

Bydd y Cyngor yn:

- Cynorthwyo ysgolion i ddatblygu dysgu digidol trwy gymorth llysgennad digidol neu ymgynghorydd strategaeth ddigidol.
- Cynorthwyo pob ysgol i weithredu strategaethau digidol sy'n hyrwyddo ac yn cefnogi dysgu cyfunol a digidol.
- Hyrwyddo'r defnydd o Lwyfan Digidol a Dysgu Rhithwir HWB i gefnogi dysgu digidol i bob ysgol a phob disgybl, gan wella sgiliau a gallu digidol pob disgybl.
- Sicrhau bod ysgolion wedi'u grymuso i ddefnyddio technoleg i gefnogi dulliau dysgu cyfunol ac o bell i bob disgybl ledled yr awdurdod lleol.
- Hyrwyddo'r cymorth a'r arweiniad sy'n cael eu darparu gan Gonsortïwm Canolbarth y De.

Goblygiadau i arweinwyr ysgol a llywodraethwyr:

Dylai arweinwyr ysgol wneud y canlynol:

- Gweithio gyda'u disgyblion, staff a chymunedau i ddatblygu cyd-ddealltwriaeth o ddysgu digidol yn eu sefydliad a'u cymuned eu hunain.
- Meddu ar ddealltwriaeth gadarn o ofynion y Fframwaith Cymhwysedd Digidol a hyrwyddo swyddogaeth Arweinydd Digidol yr Ysgol fel aelod allweddol o'u sefydliad.
- Sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi'n dda ac yn hyderus o ran eu gwybodaeth a'u sgiliau wrth ddarparu dysg mewn amgylchedd digidol.
- Cydnabod y buddion y mae storio cwmwl fel OneDrive yn eu cynnig sy'n cynnwys y modd i'w gyrchu o bobman, copïau wrth gefn dibynadwy, gwytnwch, a diogelwch data.
- Sicrhau bod modd i bob disgybl ddefnyddio Microsoft 365 a OneDrive trwy'r rhaglen HWB yn ei ysgol.
- Ymgysylltu'n llawn â System Dysgu Digidol a Rhithwir HWB i hwyluso dysgu digidol a gwella sgiliau a gallu digidol pob disgybl.
- Cymryd mesurau effeithiol i ddiogelu eu data a deall y mesurau sy'n ofynnol i reoli'r galw cynyddol am storio a defnyddio data mewn amgylchedd diogel.

- Gweithio gyda'r holl ddisgyblion fel eu bod yn y sefyllfa fwyaf effeithiol i gymryd rhan mewn dysgu digidol neu'r gweithle digidol ar ôl troi'n 16 oed. [Fframwaith strategol ar gyfer dysgu digidol ôl-16 oed yng Nghymru](#)
- Gweithredu strategaethau digidol sy'n hyrwyddo ac yn cefnogi dysgu cyfunol a digidol.

[CSC Professional Learning Offer 2021](#) / [Blended Learning](#) / [Curriculum: Digital Learning](#)

Dull Strategol o Wreiddio Gwasanaethau Digidol

Mae'r term 'gwasanaethau digidol' yn eang. Mae'n adlewyrchu pob agwedd ar waith ysgolion a'r Cyngor. Wrth i bob agwedd o'n gwaith ddod yn gynyddol ddigidol, mae angen i ni ailgynllunio'r gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu i sicrhau ein bod ni'n cynyddu eu heffeithiolrwydd i'r eithaf, yn ariannol ac o ran cynhyrchiant.

Mewn ysgolion, mae hyn yn ymwneud â chyfathrebu, cydweithredu a rhannu, cynllunio a darparu dysgu. Mae hefyd yn ymwneud â'r berthynas sydd gan ysgolion â'r gwasanaethau yn y Cyngor a sut mae'r rhain yn effeithiol wrth gefnogi darparu eu gwasanaethau craidd.

Mae rheoli arian cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ac ysgolion osgoi datblygu atebion cul sy'n cyflawni un dasg yn unig. Mae'r gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu yn croesi ffiniau adrannol traddodiadol yn fwy aml. Er mwyn cyflawni buddion gwasanaethau digidol yn llawn, mae angen i ni ddylunio'r gwasanaethau yma'n unol â gofynion eang a modelau cyflenwi.



technoleg newydd yn ei gynnig.

Rhaid i ni hefyd sicrhau wrth uno ein bod ni'n mesur gwerth ac effeithlonrwydd ar lefel yr ysgol neu'r Cyngor, nid fesul gwasanaeth na fesul adran ond ar yr effaith gronns rydyn ni'n cael ar y defnyddiwr terfynol, ein disgyblion.

Er mwyn gwasanaethu ein disgyblion, eu teuluoedd, a'n cymunedau, mae angen i ni ddarparu gwasanaethau sy'n diwallu eu hanghenion yn effeithlon, gan ymateb i ofynion a chyd-destunau esblygol a'r cyfleoedd y mae

Mae llwyddiant yn golygu gweithio'n raddol tuag at wasanaethau mwy ymatebol ac ystwyth – wedi'u galluogi'n ddigidol o'r pen blaen i weithredoedd swyddfa gefn, gan gynnwys pobl, prosesau, a strwythurau sefydliadol.

Yr hyn rydyn ni'n ei wneud:

- Mae'r Cyngor yn nodi'r gwasanaethau y mae angen eu trawsnewid yn ddigidol i symleiddio prosesau a gwella effeithlonrwydd trwy gael llai o fiwrocratiaeth. Mae'r rhain yn cynnwys:
 - Darparu porth ar gyfer trosglwyddo a chasglu gwybodaeth sy'n ymwneud â disgyblion ag anghenion addysgol ychwanegol neu arbennig yn ddiogel.
 - Rhoi cymorth i ysgolion gydymffurfio â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol ([GDPR](#)) trwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG).
 - Defnyddio cyfathrebu electronig (e-bost) i leihau baich gweinyddol cyfathrebu papur a chasglu data.
 - Cyflwyno cyfarfodydd digidol gan ddefnyddio MS TEAMS fel bod cyfarfodydd yn fwy effeithlon o ran amser ac angen llai o deithio.
 - Casglu adborth a data defnydd penodol gan ddefnyddio mecanweithiau digidol fel Microsoft FORMS.
 - Galluogi ysgolion i roi gwybod am eu gofynion cymorth TG trwy borth digidol dynodedig.

Yr hyn byddwn ni'n ei wneud:

Bydd y Cyngor yn:

- Gwella diogelwch ac effeithlonrwydd cyfathrebu trwy weithredu Microsoft 365 ar gyfer pob cyfathrebiad o'r Sir i'r ysgol ac o'r ysgol i'r Sir.
- Nodi sut y dylai ysgolion fod yn coladu, trosglwyddo, cadw a rheoli cofnodion addysgol.
- Defnyddiwch Microsoft TEAMS i roi cymorth i ysgolion weithio'n ddigidol ac yn ddiogel ar gyfer:
 - Cyfathrebu a storio dogfennau sy'n ymwneud â phob agwedd ar Lywodraethu.
- Gweithredu Ffrydiau Gwybodaeth Ddigidol ar gyfer:
 - Rhannu gwybodaeth sy'n ymwneud â thasgau allweddol, megis y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol neu ffurflenni data.
 - Darparu gwybodaeth fel Cytundebau Lefel Gwasanaeth a Datganiadau Polisi.
- Datblygu a gweithredu dulliau digidol ar gyfer cyrchu ystod eang o wasanaethau sy'n cefnogi swyddogaeth adeilad yr ysgol, gan leihau biwrocratiaeth a gwella effeithlonrwydd ac amseroedd ymateb.
- Dod â'r arfer o ysgolion yn storio gwybodaeth bersonol a gwybodaeth yn ymwneud â'r cwricwlwm ar eu gweinyddion eu hunain i ben yn raddol wrth i ysgolion ddod yn fwy sefydlog yn eu defnydd o systemau yn y cwmwl.

- Ymchwilio i'r potensial ar gyfer cefnogi disgyblion a swyddogaeth gyffredinol ysgolion trwy'r strategaeth Dod â'ch Dyfais eich Hun. Mae yna lawer o heriau [i'r dull yma](#) y bydd angen eu goresgyn i sicrhau amgylchedd diogel i'n disgyblion.
- Mwy o ddefnydd o Weminarau i ddarparu ystod eang o hyfforddiant ar draws y Cyngor ar gyfer staff a disgyblion yn yr ysgol.

Goblygiadau i arweinwyr ysgolion a llywodraethwyr:

Mae angen i arweinwyr ysgolion a llywodraethwyr ystyried sut maen nhw'n ymgysylltu â'r Cyngor i gyflawni eu darpariaethau statudol. Wrth i ni gofleidio'r buddion a'r effeithlonrwydd a roddir gan wasanaethau digidol newydd, bydd angen i ysgolion werthuso sut mae newidiadau i'w prosesau yn gofyn am hyfforddiant ac arweiniad newydd i'w staff.

Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth yn nodi bod gan ysgolion a'r Sir, yn eu swyddogaeth fel rheolwyr data, rwymedigaethau sy'n ymwneud â chyfrinachedd, uniondeb ac argaeledd yr holl ddata personol maen nhw yn ei gadw. Mae hyn yn golygu bod yr ysgol yn atebol am unrhyw fusnes ysgol a gynhelir sy'n cynnwys data personol ar unrhyw ddyfais neu drwy unrhyw gyfrif e-bost. Mae angen i ysgolion ystyried bod defnyddio cyfrifon a dyfeisiau personol ac e-bost yn cynyddu'r risg yn sylweddol bod data personol yn cael ei brosesu at ddibenion sy'n wahanol i'r rhai y cafodd ei gasglu ar ei gyfer yn wreiddiol.

Dylai arweinwyr ysgolion:

- Ystyried pa wasanaethau fyddai'n eu cefnogi yn eu rolau statudol ac ymgysylltu â'r Cyngor er mwyn darparu gwasanaethau digidol yn y meysydd yma.
- Ymgysylltu'n llawn â Chytundeb Lefel Gwasanaeth Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol i sicrhau arfer gorau wrth ddiogelu pob disgybl a'u data personol.
- Defnyddiwrch y gwasanaethau E-bost dynodedig yn unig yn unol â chyfarwyddyd y Cyngor ar gyfer unrhyw gyfathrebu electronig sy'n ymwneud â gwaith yr ysgol neu'n cynnwys unrhyw wybodaeth am eu disgyblion.
- Gweithredu Microsoft 365 ar draws yr ysgol ar gyfer yr holl staff a llywodraethwyr, gan gynnwys defnyddio TEAMS i ymgysylltu'n llawn â'r gwasanaethau mae'r Cyngor yn eu darparu.
- Meddu ar ddealltwriaeth ddiogel o'r CLGau sy'n gweithredu yn eu hysgol a pha ddata sy'n cael ei rannu neu ei storio yn rhan o bob CLG.
- Defnyddio unrhyw borth neu ddull cytunedig o rannu data y mae'r Cyngor yn ei weithredu yn llawn a chael hyfforddiant yn ôl yr angen.
- Ystyried buddion a risgiau polisiau ysgolion, megis defnyddio Dod â'ch Dyfais eich Hun neu gysylltiad di-wifr a cheisio arweiniad gan y Cyngor lle bo angen.
- Ystyried sut mae data disgyblion yn parhau i fod yn ddiogel trwy'r holl brosesau y mae'r ysgol yn ymgysylltu â nhw trwy gydol y flwyddyn academiaidd.
- Cynnal gwybodaeth gyfoes o'r cyngor a'r arweiniad gan Lywodraeth Cymru ar [gadw dysgwyr yn ddiogel](#).

Mae cynhwysiant digidol yn fater cymdeithasol. Mae modd i ddiffyg sgiliau digidol a mynediad at y rhyngwrdd gael effaith negyddol enfawr ar fywyd person, gan arwain at:

- deilliannau iechyd gwaeth a disgwyliad oes is, • mwy o unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol,
- llai o fynediad at swyddi ac addysg.

Mae modd iddo olygu:

- talu mwy am bethau hanfodol,
- allgáu ariannol,
- risg uwch o ddioddef tlodi.

Mae gan bobl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol hefyd ddiffyg llais a gwelededd yn y byd modern, wrth i wasanaethau'r llywodraeth a democratiaeth symud ar-lein fwyfwy. Ar ben hynny, y rhai sydd eisoes dan anfantais – oherwydd oedran, addysg, incwm, anabledd neu ddiweithdra – sydd fwyaf tebygol o fod ar eu colled, gan ehangu'r bwlch anghydraddoldeb cymdeithasol ymhellach.

[\(\[goodthingsfoundation.org\]\(http://goodthingsfoundation.org\)\)](http://goodthingsfoundation.org)

Hawliau Disgyblion a Diogelu

Cadw Disgyblion yn Ddiogel a Sicrhau Cydraddoldeb Mynediad a Darpariaeth

'Mae hawliau ac anghenion dysgwyr yn hollbwysig i bopeth a wna'r ysgol, gan sicrhau bod pob dysgwr yn elwa ar hawl i gael y profiad ysgol gorau posibl yng Nghymru.' [Safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth / Safonau Arweinyddiaeth Ffurfiol / Addysgeg](#)

Mae 'Hawliau Dysgwyr' yn fandad pellgyrhaeddol i'r Cyngor a phob arweinydd ysgol. Yn ei ffurf symlaf, mae'n sicrhau bod plant a phobl ifainc yn cael mynediad at eu hawl i gael addysg addas, gan eu grymuso i fod yn llwyddiannus a dod yn gyfranogwyr gweithredol o fewn cymdeithas a byd gwaith.

[Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn](#)

Cadw Dysgwyr yn Ddiogel

O fewn cwrdd y byd digidol, mae 'Hawliau Disgyblion' yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ac ysgolion ystyried y nifer o elfennau sy'n creu ac yn hwyluso'r hawl honno.

Mae'r elfennau yma'n cynnwys:

- Mynediad diogel i ddeunyddiau dysgu sy'n cefnogi cwricwlwm eang, cytbwys a pherthnasol.
- Darparu amgylchedd corfforol a digidol diogel ar gyfer cyfathrebu electronig a chyrchu deunyddiau dysgu digidol.
- Diogelu disgyblion ar-lein yn eu hysgol a ble bynnag y maen nhw'n cyrchu eu dysgu.
- Addysgu disgyblion i gael hunan-reolaeth, nodi risg a chymryd camau priodol i gadw eu hunain yn ddiogel.
- Diogelu a sicrhau eu gwaith a'u deilliannau, yn enwedig mewn perthynas â deunyddiau mae modd eu holrhain i unigolion neu waith ar gyfer arholiadau.
- Datblygu dealltwriaeth, ymwybyddiaeth a chydnerthedd plant trwy'r cwricwlwm.



Mae angen i'r Cyngor ac ysgolion ystyried sut maen nhw'n darparu a sicrhau yr elfennau yma a sut rydyn ni'n atebol lle dydy ein gweithredoedd ddim yn sicrhau gofyniad absoliwt 'Hawliau Dysgwyr.'

[Cadw Dysgwyr yn Ddiogel](#) (Dogfen ganllaw rhif: 265/2020. Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2020. Yn disodli dogfen ganllaw: 158/2015)

Sicrhau Cydraddoldeb Mynediad a Darpariaeth

"Mae argyfwng y coronafeirws wedi'i wneud yn angenrheidiol i'r rhan fwyaf o blant weithio gartref ar hyn o bryd. Mae technoleg fodern yn caniatáu inni ddysgu o bell, ac mae amrediad eang o offer dysgu gwyh ar gael ar lein. Ond, rwy'n cydnabod bod y sefyllfa'n un heriol i nifer o deuluoedd.

"Fy mlaenoriaeth i yw sicrhau nad oes unrhyw blentyn na theulu yn cael eu gadael ar ôl yn ystod yr argyfwng hwn, a bod pob plentyn yn cael cyfle i barhau i ddysgu. Drwy addasu offer ysgol, byddwn ni'n sicrhau bod plant a theuluoedd yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt cyn gynted ag sy'n bosibl.

Gweinidog Addysg Cymru, Kirsty Williams

Mae argyfwng presennol y coronafeirws wedi tynnu ein sylw at grŵp o ddisgyblion sydd ddim wedi medru cymryd rhan mewn dysgu o bell. Maen nhw wedi cael eu diffinio fel disgyblion sydd 'wedi'u heithrio'n ddigidol.'

Mae disgybl sydd 'wedi'i eithrio'n ddigidol' yn ddisgybl sydd heb fynediad at ddyfais briodol sy'n gysylltiedig â'r rhyngwyd i gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu ar-lein o'i gartref yn ystod y cyfyngiadau ar symud. (Llywodraeth Cymru, mis Mawrth 2020)



Serch hynny, mae'r Cyngor yn cydnabod bod Cydraddoldeb Mynediad a Darpariaeth hefyd wedi'i effeithio gan sut mae ysgolion wedi buddsoddi mewn technolegau digidol. Mae modd i'r flaenoriaeth y mae ysgolion yn ei rhoi i ddysgu digidol neu'r dewisiadau maen nhw'n gwneud wrth benderfynu sut i wario eu cyllid hefyd gyfrannu at y gagendor digidol, gan gael effaith sylweddol ar y gweithle digidol mae modd i ddisgyblion ei gyrchu yn gynnar yn eu bywydau gwaith.

Bydd y Cyngor yn gweithio gydag ysgolion i dynnu sylw at y gwahanol brofiadau y mae disgyblion yn eu cael gan ddibynnu ar ble maen nhw'n derbyn eu haddysg. Bydd y

Cyngor hefyd yn gweithio gydag ysgolion i nodi sut y gellir amddiffyn 'Hawliau Disgyblion' yn ein byd cynyddol ddigidol.

Mae ein gwerthfawrogiad o'r term cymharol newydd 'todi data' wedi datblygu ers dechrau'r pandemig. Cyn mis Mawrth 2020 roedd ein dealltwriaeth o'r term yma'n canolbwyntio ar ddiffyg adnoddau personol i brynu nwyddau a defnyddio gwasanaethau ar-lein; naill ai costau ariannol prynu'r dechnoleg a/neu gysylltu; costau parhaus band eang neu ddata, neu gysylltedd cyfyngedig oherwydd signal gwael. XXX

[Rhagolwg Cynhwysiant Digidol: tuag at Gymru ddigidol hyderus.](#) Rhagfyr 2020

Yr hyn rydyn ni'n ei wneud:

Mae'r Cyngor yn:

- Sicrhau y bydd modd i bob Disgybl sydd wedi'i Allgáu'n Ddigidol ddefnyddio dyfais ddigidol i'w helpu i ddysgu pan na fydd yn yr ysgol.
- Hyrwyddo'r defnydd o HWB fel platfform dysgu digidol diogel i bob disgybl a phob ysgol.
- Gweithredu Safonau Addysg Ddigidol HWB i sicrhau bod cysylltedd a safonau data a diogelwch yn cael eu datblygu a chefnogi darpariaeth addysg o ansawdd uchel mewn amgylchedd diogel.
- Ymgysylltu ag ysgolion i'w cefnogi i sicrhau bod eu hamgylchedd dysgu yn ddiogel i bob disgybl.

Beth fyddwn ni'n ei wneud?

Bydd y Cyngor yn:

- Ymgysylltu â disgyblion i raddau mwy helaeth er mwyn deall eu hanghenion a'u dyheadau ar gyfer dysgu a gweithio mewn byd digidol yn well.
- Ymgysylltu ag ysgolion i ddeall goblygiadau Hawliau Disgyblion mewn byd digidol, gan archwilio potensial a chyfyngiadau datblygu Hawliau Disgyblion trwy ystod ehangach o brofiadau ac opsiynau mynediad, gan gynnwys dysgu o bell ac ar-lein.
- Ymgysylltu ymhellach â Llywodraeth Cymru a ffynonellau cyllid eraill i wneud y mwyaf o arbedion maint a gwerth am arian trwy Gaffael Cydweithredol.
- Darparu mynediad i Lyfrgell Ddigidol sydd ar gael ledled y Sir at ddefnydd pob disgybl.
- Datblygu a hyrwyddo Cysylltiadau Byd-eang ymhellach i gefnogi cynnwys a darpariaeth addysgol yn enwedig ym maes mathemateg, peirianeg a gwyddoniaeth.

Goblygiadau i arweinwyr ysgolion a llywodraethwyr:

Dylai arweinwyr a llywodraethwyr ysgolion:

- Ystyried sut bydd eu darpariaeth o'r cwricwlwm yn elwa o ymgysylltu â phrofiadau dysgu digidol.
- Archwilio sut mae modd i gysylltiadau â diwydiant neu sefydliad addysg uwch ennyn diddordeb disgyblion wrth archwilio'r byd neu weithio mewn dyfodol digidol.
- Ymgysylltu â'r Cyngor i archwilio potensial a chyfyngiadau mynediad ehangach i brofiadau dysgu i ddisgyblion ar draws y Cyngor, gan gynnwys dysgu o bell ac ar-lein.
- Ystyried a gwerthuso sut mae penderfyniadau cyllido yn effeithio ar Hawliau Disgyblion mewn byd digidol.
- Deall sut mae Safonau Digidol HWB [yn cefnogi ysgolion](#) wrth ddiogelu disgyblion a'u hawliau.

Canlyniadau a Chyflawniadau'r Strategaeth

Bydd ein Strategaeth yn cyflawni ein Gweledigaeth o: Cydraddoldeb o ran mynediad a darpariaeth ar gyfer pob disgybl/myfyriwr/dysgwr ledled y Fwrdeistref Sirol sy'n cefnogi rhagoriaeth a chyflawniad uchel mewn amgylchedd creadigol, cyffrous, a thechnolegol gyfoethog, gan sicrhau llwyddiant, gwerthfawrogi amrywiaeth, magu hunan-barch, a hyrwyddo sgiliau ac agweddau dysgu gydol oes.

Erbyn 2025, i gefnogi ein gweledigaeth, byddwn ni'n cyflawni'r canlyniadau canlynol:

- Mabwysiadu'r Safonau Seilwaith Digidol Cenedlaethol yn llawn.

- Gweithredu cynllun cwbl gynaliadwy ar gyfer adnewyddu'r holl offer rhwydwaith ysgolion o leiaf bob deng mlynedd a gweithio gydag ysgolion i weithredu cynllun i adnewyddu dyfeisiau defnyddwyr bob pum mlynedd.
- Mynediad at Ddysgu Digidol trwy HWB a Chyfrifiadura Cwmwl i bob disgybl.
- Dull Strategol o ddarparu ystod eang o Wasanaethau Digidol, symleiddio ac ymgorffori prosesau sy'n dod ag effeithlonrwydd o ran amser ac adnoddau ar draws y Cyngor.
- Hawliau disgyblion yn cael eu gwarchod a'u datblygu ar draws cwricwlwm eang, cytbwys a pherthnasol gan sicrhau bod pob dysgwr yn cael ei gadw'n ddiogel ac yn deall sut i gadw'n ddiogel mewn byd digidol.
- Gwneud y mwyaf o arbedion maint a chael gwerth am arian trwy broses gaffael gydweithredol sydd wedi'i hen sefydlu ac sy'n gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a phartneriaid allweddol eraill.



Sut byddwn ni'n cyrraedd?

Mae ein strategaeth yn uchelgeisiol. Bydd angen gweithio ar y cyd â'r holl randdeiliaid, gwaith caled, penderfyniadau anodd a meddwl o'r newydd. Bydd partneriaethau Cymru a strategaethau ehangach sy'n cael eu llywio gan Raglen Drawsnewidiol HWB yn ein cefnogi yn y blynyddoedd cynnar o fabwysiadu polisïau a methodolegau gweithio allweddol.

Mae'n hanfodol bod ein holl randdeiliaid a'n partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni'r targedau strategaeth sydd o fudd i'n defnyddwyr terfynol, y disgyblion.

Rydyn ni o'r farn y bydd ein cymunedau ysgol yn elwa ar ein gweithredoedd, ond byddwn ni'n parhau i wrando a myfyrio ar effaith ein strategaethau a gwneud newidiadau lle bo hynny'n briodol. Bydd llwyddiant yn golygu cydweithio gan bob arweinydd a hyrwyddwr digidol ym mhob ysgol a chan y Cyngor er mwyn creu grŵp o bobl a fydd yn hyrwyddo ac yn cyflawni'r strategaeth a'r buddion eang cysylltiedig i bob disgybl.

Arweinyddiaeth

Bydd cyflawni'r strategaeth yn llwyddiannus yn dibynnu ar drefn lywodraethu addas o ran cyflawni ac arweinyddiaeth gadarn ar draws y Cyngor.



Bydd angen i bob llywodraethwr ysgol, arweinydd ac aelod o staff a gweithwyr y Cyngor gofleidio ein newid digidol, gyda dealltwriaeth glir mai'r effaith ar ddeilliannau disgyblion a hawliau disgyblion sy'n sbarduno pob newid.

Bydd grŵp arweinyddiaeth ddigidol, sy'n ymgysylltu ag arweinwyr y Cyngor ac ysgolion, yn canolbwyntio ar yrru'r strategaeth yma yn ei blaen. Bydd y grŵp yn sicrhau bod y strategaeth yn cael ei chyflwyno a bod ein dangosyddion cyflawniad allweddol yn cael eu cyrraedd. Cyfrifoldeb y grŵp yma yw arwain, hyrwyddo, herio a gwrthio trawsffurfiad digidol ar draws ac o fewn ein holl ysgolion, gan gofleidio ffyrdd digidol o ymgysylltu â'r Cyngor a'n partneriaid allanol.

Hyrwyddwyr Digidol

Bydd Hyrwyddwyr Digidol Ysgolion a Chynghorau, yn cydweithio gyda'r Arweinydd Trawsffurfiad Digidol newydd ar gyfer Ysgolion a fydd yn gweithio gydag arweinwyr ysgolion, ymarferwyr a disgyblion ym mhob ysgol i gyflawni'r strategaeth.

Polisiau sy'n Gyfeillgar i Ddigidol

Bydd polisiau'r Cyngor yn cael eu diweddarau i alluogi'r newidiadau sy'n angenrheidiol i weithredu ein gweledigaeth ddigidol. Bydd ysgolion yn cael eu cefnogi i gofleidio'r newidiadau trwy newidiadau polisiau a gweithdrefnau. Bydd polisiau sy'n cefnogi ffyrdd newydd o weithio yn cael eu dyfeisio a'u rhannu rhwng yr holl bartneriaid gan gael gwared ar rwystrau i newid ac yn unol â'r weledigaeth strategol.



Dangosyddion Cyflawniad Allweddol

Dangosydd Allweddol	Targedau / Deilliannau
Safonau Seilwaith Digidol	
Gweithredu cynllun cytunedig ar gyfer seilwaith y rhwydwaith, yn rhan o'r gwaith i wella'r rhwydwaith ym mhob sefydliad addysgol gan sicrhau bod pob ysgol yn cydymffurfio â Safonau Digidol HWB.	Mae pob rhwydwaith ysgol yn cydymffurfio â'r set o safonau uchel sydd wedi'u cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru sef Safonau a Chanllawiau Digidol Addysg HWB. Mae gan ysgolion newydd rwydweithiau sydd wedi'u cynllunio a'u gosod yn unol â'r safonau cyfredol.
Rhoi system dechnegol ar waith ym mhob ysgol gynradd, uwchradd, bob oed ac arbennig sy'n ailgyfeirio eu holl drafftig rhyngwryd yn syth i'r Prosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus (PSBA).	Mae pob ysgol yn defnyddio ei darpariaeth rhyngwryd PSBA Llywodraeth Cymru dim ond ar gyfer yr holl lif data sy'n gysylltiedig â disgyblion a chanlyniadau disgyblion sy'n golygu bod data a'r rhwydweithiau yn fwy diogel.
Canllawiau cliriach ar Gyfrifoldebau Landlordiaid Corfforaethol, helpu ysgolion i ddiogelu eu disgyblion, darparu modd i gadw at Safonau a Chanllawiau Digidol Addysg Llywodraeth Cymru.	Mae pob rhwydwaith digidol yn yr ysgolion yn dilyn set glir o safonau ac yn sicrhau bod yr un hawliau dysgu gan bob disgybl. Bydd diogelwch yn cael ei gynnal gan y bydd y Cyngor yn goruchwyllo pob dyfais.
Cynllunio a Chynaliadwyedd	
Cynyddu capasiti a nifer y dyfeisiau sydd ar gael i'r disgyblion er mwyn eu helpu i ddysgu mewn amgylchedd digidol.	Trwy broses gaffael gydweithredol, bydd 1 ddyfais ar gael i bob 2.4 disgybl cyn mis Medi 2022 ac 1 ddyfais i bob 2 ddisgybl erbyn diwedd cyfnod y strategaeth.

RhCT Digidol – Ein Strategaeth i Ysgolion

Bydd yr un flaenoriaeth yn cael ei rhoi i ddarpariaeth ddigidol â chyfleustodau eraill megis nwy a dŵr.	Bydd pob ysgol yn gwneud penderfyniadau priodol ynglŷn â'i gwariant sy'n cefnogi dysg mewn byd digidol ac yn gweithio tuag at gymhareb 'dyfais i ddisgybl' o 1:2.
Sicrhau bod yr holl dechnoleg a dyfeisiau, gan gynnwys dyfeisiau symudol, yn parhau i fod yn berthnasol i'r gofynion cyfredol trwy sefydlu rhaglen dreigl pum mlynedd ar gyfer adnewyddu technoleg.	Mae pob ysgol yn cadw at bolisiau perthnasol fel bod ei dyfeisiau digidol yn cael eu hadnewyddu o leiaf bob pum mlynedd, gan gynnal darpariaeth safon uchel o brofiadau a gwasanaethau dysgu digidol.
Dysgu mewn Ystafell Ddosbarth Ddigidol	
I fod yn llwyddiannus, mae angen i'r ystafell ddosbarth ddigidol ddarparu cysylltedd safon uchel, technoleg gydnherth a dibynadwy, a chanolbwyntio ar ganlyniadau'r disgyblion.	Mae darpariaeth ddi-wifr a mynediad i rwydweithiau ar gael ym mhob ystafell ddosbarth, a fydd yn galluogi disgyblion i ganolbwyntio ar eu dysg ac nid ar y dechnoleg.
Ymgysylltu'n llawn â System Dysgu Digidol a Rhithwir HWB i hwyluso dysgu digidol a gwella sgiliau a gallu digidol pob disgybl.	Mae pob ysgol yn defnyddio System Dysgu Digidol HWB yn llawn i ennyn diddordeb eu disgyblion.
Sicrhau bod modd i bob disgybl ddefnyddio Microsoft 365 a OneDrive trwy'r rhaglen HWB yn ei ysgol.	Mae modd i bob disgybl ddefnyddio Microsoft 365 trwy ei ysgol a bod trwydded HWB ar ei gyfer. Mae pob disgybl rhwng 7 a 18 oed yn defnyddio HWB a Chwmwl Microsoft 365 ar gyfer dogfennau pwysig sy'n ymwneud â'u profiadau dysgu.
Gwasanaethau Digidol	
Gwella diogelwch ac effeithlonrwydd cyfathrebu trwy weithredu Microsoft 365 ar gyfer pob cyfathrebiad o'r Sir i'r ysgol ac o'r ysgol i'r Sir.	Mae pob adran yn y Cyngor yn defnyddio cyfeiriadau e-bost HWB trwy Microsoft 365 ar gyfer cyfathrebu â staff gweinyddol ac uwch arweinwyr drwy'r amser ym mhob ysgol. Mae bron pob aelod o staff yr ysgol yn defnyddio cyfeiriadau e-bost HWB wrth gyfathrebu.
Cyflwyno cyfarfodydd digidol gan ddefnyddio MS TEAMS fel bod cyfarfodydd yn fwy effeithlon o ran amser ac mae angen llai o deithio.	Mae adrannau'r Cyngor yn defnyddio manau cyfarfod digidol, gan ddefnyddio Microsoft TEAMS, wrth weithio a chyfathrebu ag ysgolion, i sicrhau defnydd effeithiol o amser a chyfathrebu diogel.
Datblygu a gweithredu dulliau digidol ar gyfer cyrchu ystod eang o wasanaethau sy'n cefnogi swyddogaeth adeilad yr ysgol, gan leihau biwrocratiaeth a gwella effeithlonrwydd ac amseroedd ymateb.	Mae mecanweithiau digidol yn cael eu defnyddio ar gyfer casglu a rhannu gwybodaeth ar gyfer y mwyafrif o dasgau gweinyddol. Mae sianeli MS TEAMS yn cael eu defnyddio i storio gwybodaeth bwysig a pherthnasol, gan leihau'r angen i anfon atodiadau mawr i ysgolion.

Hawl Disgyblion / Diogelu Disgyblion	
Sicrhau y bydd modd i bob Disgybl sydd wedi'i Allgáu'n Ddigidol ddefnyddio dyfais ddigidol i'w helpu i ddysgu pan na fydd yn yr ysgol.	Mae gan y Cyngor ddiffiniad clir ar gyfer Disgyblion sydd wedi'u Hallgáu'n Ddigidol. Mae modd i bob disgybl sydd wedi'i allgáu'n ddigidol gyrchu ei deunydd/ddeunydd dysgu trwy ddefnyddio dyfeisiau digidol, naill ai yn yr ysgol neu o bell.
Ymgysylltu â disgyblion i raddau mwy helaeth er mwyn deall eu hanghenion a'u dyheadau ar gyfer dysgu a gweithio mewn byd digidol yn well.	Mae'r Cyngor yn ymgysylltu'n rheolaidd â disgyblion o bob oed ac mae ganddo ddealltwriaeth glir o'u hanghenion a'u dyheadau digidol. Mae'r Cyngor yn defnyddio'r adborth gan ddisgyblion i sefydlu neu ddiwygio gwasanaethau addysg neu wasanaethau i bobl ifainc.
Darparu mynediad i Lyfrgell Ddigidol sydd ar gael ledled y Sir at ddefnydd pob disgybl.	Mae'r Cyngor yn darparu mynediad at ddeunyddiau darllen a chyfeirio ar gyfer pob disgybl rhwng 5 ac 16 oed. Mae'r wybodaeth yma ar gael yn ddigidol a lle bo hynny'n bosibl, yn cael ei darparu yn rhad ac am ddim am gyfnodau benthyg byr.

Atodiadau

Atodiad A

GWASANAETHAU TGCH CRAIDD 2020/21

1. Amlinelliad o'r Gwasanaeth

Mae'r Gwasanaeth TGCh yn wasanaeth cymorth/cefnogi mewnol sy'n ymrwymo i ddatblygu gwasanaeth TGCh hwylus a chost-efeithiol i'r Cyngor a'i ysgolion. Bydd yn parhau i wneud ei orau glas i wella a datblygu ansawdd y gwasanaeth sydd ar gael.

Mae Gwasanaethau TGCh yn rhan o Gyfarwyddiaeth Gofal i Gwsmeriaid a TGCh dan Gyfadrn y Gwasanaethau Corfforaethol.

Mae'r ddogfen yma'n amlinellu'r Gwasanaethau TGCh craidd sy'n cael eu talu gan y costau a ddirprwywyd i chi yn eich fformiwla ysgol o dan TGCh/Band Eang ar gyfer 2019/20 ac a fydd yn sail i'r CLG ar gyfer Gwasanaethau TGCh craidd.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn berchen ar drwyddedau ar gyfer yr holl Wasanaethau TGCh craidd sy'n cael eu defnyddio gan bob ysgol yn Rhondda Cynon Taf (Gweler Atodiad 1 ar gyfer rhestr o'r holl fodiwlau).

Nodwedd Newydd ar gyfer 2020/21

Cyfrifoldebau'r ALI

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, fel landlord corfforaethol yn berchen ar ac yn rheoli holl offer Adnewyddu Technoleg Addysg HWB, gan gynnwys cabinetau, switsys rhwydwaith craidd ac ymylol, pwyntiau mynediad di-wifr, ceblau asgwrn cefn a phwyntiau gollwng a'r holl weinyddion ar gyfer gwasanaethau diweddarau Windows ac Apple. (Gweler Atodiad 2 am restr o'r holl offer gan gynnwys yn y rhaglen adnewyddu.)

Cyfrifoldebau'r Ysgolion sy'n Gleientiaid

Yr Ysgolion a Gyllidwyd / Cyfrifoldeb

- Bydd ysgolion yn elwa o gyllid ychwanegol ar gyfer cam cyntaf y broses o adnewyddu eu hoffer i ddefnyddwyr rhwng 2020 a 2022. Bydd enghreifftiau o'r offer yn cynnwys gliniaduron, Chromebooks ac iPads.

- Bydd gofyn i ysgolion wneud penderfyniadau ynglŷn â sut i dalu am offer newydd o'u cyllideb yn y dyfodol.
- I fod yn gymwys i dderbyn yr offer ychwanegol fel rhan o'r CLG yma, mae'r ysgolion yn cytuno i'r cyfrifoldeb i adnewyddu'r offer yma o fewn 5 i 7 mlynedd.

2. Nodweddion Allweddol y Gwasanaeth

Mae'r CLG Gwasanaethau TGCh Craidd yn rhoi hawl i ysgolion:

- Defnyddio'r holl feddalwedd a gwasanaethau sy'n cael eu rhestru yn Atodiad 1 a fydd yn sicrhau diogelwch a chywirdeb rhwydweithiau'r ysgol a'r Cyngor;
- Cymorth a gwaith cynnal a chadw i'r meddalwedd a'r gwasanaethau craidd;
- Un pwynt cyswllt sengl ar gyfer unrhyw uwchgyfeiriadau mewn perthynas â'r gwasanaethau TGCh craidd a ddarperir;
- Cael defnydd o feddalwedd System Rheoli Gwybodaeth Ysgolion yn unol â'r CLG ar gyfer y system honno a chael y meddalwedd wedi'i uwchraddio;

Dydy'r CLG yma ddim yn cwmpasu'r gwasanaethau cymorth cwricwlwm a nodir yn CLG Cwricwlwm Ysgolion TGCh ar wahân.

Nodweddion newydd ar gyfer 2020/2021

Mae'r CLG Gwasanaethau Craidd TGCh yn rhoi hawl i ysgolion:

- Defnyddio'r holl offer Technoleg Addysg HWB newydd i gyflwyno'r cwricwlwm a chyflawni holl swyddogaethau gweinyddol yr ysgol yn unol ag e-bost RhCT a'r cytundeb ar gyfer defnyddwyr y rhyngwyd;
- Cael cymorth, gwaith cynnal a chadw ac amnewid y seilwaith rhwydwaith craidd ym mhob sefydliad yn seiliedig ar gyflawniad, swyddogaeth a hyd oes trwy'r cytundeb cynaliadwyedd;
- Cael un pwynt cyswllt ar gyfer unrhyw uwchgyfeiriadau mewn perthynas â'r gwasanaethau seilwaith TGCh craidd a ddarperir;
- Defnyddio proses rheoli newid ar gyfer newidiadau i gyfluniad a chyflawniad Offer Technoleg Addysg HWB sydd wedi'i osod.

3. Trefniadau Ariannol

Mae ysgolion yn derbyn dyraniad o gyllid drwy'r Cynllun Rheoli Ysgolion yn Lleol i brynu'r gwasanaeth yma. Dyma'r gost ar gyfer 2016/17:

Ysgolion Cynradd/Uwchradd ac Unedau Cyfeirio Disgyblion	Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6	£20
--	---------------------------------	-----

Ysgolion Uwchradd	Blynyddoedd 7 i 11	£30
Ysgolion Pob Oed	Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 11	Fel yr uchod yn seiliedig ar nifer y disgyblion o bob ystod oedran.

Mae'r dyraniad ariannol a'r costau yr un fath, a'r canlyniad yw effaith niwtral o ran cost.

Gwneir y taliad bob blwyddyn trwy drosglwyddiad mewnol (trwy'r llyfrau) ar gyfer ysgolion sydd heb eu llyfr sieciau eu hunain a thrwy anfoneb ar gyfer ysgolion â llyfr sieciau.

Dyw cost y gwasanaeth yma ddim yn cynnwys gwaith uwchraddio neu newidiadau angenrheidiol i galedwedd a meddalwedd fel yr amlinellir ym map ffordd technegol Capita ES neu unrhyw wasanaeth ychwanegol y tu hwnt i'r rhai a nodir yn Atodiad 1.

4. Person Cyswllt

Josie Read
Swyddog Cyswllt Cwsmeriaid
TGCh, Tŷ Elái, Trewiliam, Tonypany
CF40 1NY
E-bost: DesgGwasanaethTGCh@rhondda-cynon-taf.gov.uk
Rhif ffôn: (01443) 744064

Atodiad 1 1

Gwasanaethau TGCh Craidd ar gyfer

Gwasanaeth	Disgrifydd
Band eang Cysylltedd	Cysylltiad ffibr cyflym â'r Rhyngrwyd. Diogel, wedi'i reoli'n ganolog ac yn cefnogi mynediad i'r rhyngrwyd ac i systemau busnes ysgolion trwy rwydwaith Prosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus Llywodraeth Cymru. Lled band; Ysgolion Cynradd <300 disgybl 100Mb Ysgolion Cynradd >300 disgybl 300Mb Ysgolion Uwchradd 1GB

Mae CBS Rhondda Cynon Taf yn cadw'r hawl i dynnu cysylltedd band eang yn ôl ar gyfer unrhyw sefydliad sydd ddim yn cymryd camau addas i sicrhau bod staff a disgyblion yn defnyddio'r cysylltedd band eang a ddarperir yn ddiogel ac yn briodol.

Gwasanaeth	Disgrifydd
Meddalwedd hidlo Gwe / Rhyngrwyd (Smoothwall trwy Softcat)	Er eich diogelwch chi a diogelwch eich defnyddwyr – Meddalwedd i gefnogi lliniaru cyrchu deunydd amhriodol neu ddeunydd maleisus trwy'r rhyngrwyd. Mae'r meddalwedd yn cael ei reoli'n rhagweithiol yn ganolog ac yn cael ei gefnogi a'i ddiweddarau ar ran ysgolion i leihau'r risg y bydd feirysau'n heintio rhwydwaith eich ysgol ac er mwyn atal llygru data. Mae ar gael ar gyfer yr holl ddyfeisiau bwrdd gwaith a dyfeisiau symudol sy'n cysylltu â'r rhyngrwyd sy'n cael eu defnyddio yn eich ysgol. Dydy'r meddalwedd ddim yn disodli'r angen i ddefnyddio'r rhyngrwyd mewn ffordd ddiogel a phriodol ac mae pob ysgol yn gyfrifol am sicrhau bod staff wedi llofnodi'r Polisi a Chanllawiau E-bost a Defnydd Derbyniol o'r Rhyngrwyd Rhaid i ysgolion sicrhau bod pob disgybl yn deall am ddefnydd diogel a phriodol o'r rhyngrwyd. Efallai bydd ysgolion yn ei ystyried yn berthnasol i ddisgyblion hŷn lofnodi cytundeb defnydd priodol.
Datrysiad gwrth-feirws (McAfee) <i>Ar gael ar gyfer pob dyfais Windows â chymorth a rhwydwaith a ddefnyddir yn eich ysgol.</i>	Er eich diogelwch chi a diogelwch eich defnyddwyr – Meddalwedd i gefnogi lliniaru mynediad neu amlygiad i faleiswedd megis firysau, trojans a meddalwedd ysbio. Mae'r datrysiad yn cael ei reoli, ei gefnogi a'i ddiweddarau'n rhagweithiol yn ganolog ar ran ysgolion er mwyn lleihau'r risg y bydd feirysau'n heintio rhwydwaith eich ysgol ac er mwyn atal llygru data.
Rheoli E-byst Ysgolion	Er eich diogelwch chi a diogelwch eich defnyddwyr – Mae datrysiad yn cael ei reoli, ei gefnogi a'i ddiweddarau'n ganolog ar ran ysgolion. Mae'n diogelu e-byst, gan eu hidlo fel mai dim ond e-byst dilys, difgythiad sy'n cael eu hanfon a'u derbyn. Mae'n amddiffyn e-byst ysgolion rhag bygythiadau datblygedig a sbam ac yn lleihau'r risg o golli data trwy e-bost.

Wal Dân Canolog yr Ysgol	Er eich diogelwch chi a diogelwch eich defnyddwyr – Mae'n amddiffyn pob rhwydwaith ysgol rhag ymosodiad allanol gan amrywiaeth o fygythiadau seiber.
Datrysiaid canolog System Rheoli Gwybodaeth Ysgolion a gwasanaeth wrth gefn:- - Gwneud copi gweinyddol wrth gefn - Gwneud copi wrth gefn o wybodaeth yn ymwneud â'r cwricwlwm - Trwyddedau Cofrestru ar gyfer Seilwaith Craidd (*wedi holi am hyn)	Er mwyn sicrhau bod ysgolion yn cydymffurfio'n gyfreithiol â thrwyddedau System Rheoli Gwybodaeth Ysgolion CAPITA ac yn cael eu rheoli a'u diogelu'n rhagweithiol gan gynnwys gwneud copi wrth gefn bob dydd o holl ddata hanfodol System Rheoli Gwybodaeth Ysgolion yr ysgol y bydd modd ei adfer pe bai problem.
Gwasanaeth	Disgrifydd
• Trwyddedau Citrix	Mae'r system "letyol" yma'n cael gwared ar yr angen i ysgolion fod yn gyfrifol am greu copiau wrth gefn o gronfeydd data System Rheoli Gwybodaeth Ysgolion eu hysgol.
Desg Gwasanaeth TGCh	Eich pwynt cyswllt yn yr adran TGCh i gael cyngor, gofyn am gymorth neu uwchgyfeirio problem weithredol gyda gwasanaethau TGCh craidd. Darparu cyfathrebu rhagweithiol, diweddarau a monitro systemau ysgolion canolog a rhwydweithiau ysgolion lleol.
Mynediad o Bell Pecyn Cymorth (Centrastage trwy Redstore)	Yn caniatáu i garfanau TGCh a System Rheoli Gwybodaeth Ysgolion ddarparu gwasanaethau cymorth o bell i'ch dyfeisiau rhwydwaith mewn ysgolion. Y modd i gadw rhestr o'ch asedau TGCh sy'n cysylltu â rhwydwaith y Cyngor. Yn ogystal, mae'n caniatáu inni reoli diweddarau patsys diogelwch, e.e. Microsoft i'ch dyfeisiau bwrdd gwaith a'ch gweinyddwyr i sicrhau diogelwch rhwydweithiau'r ysgol a'r Cyngor.
Microsoft Academy*	Caniatáu i bob ysgol gael mynediad at raglen TGCh Microsoft Academy ar gyfer hyfforddiant ar-lein sy'n caniatáu i athrawon ddod yn arbenigwyr MS Office, arholiadau am ddim i athrawon a disgyblion.

RhCT Digidol – Ein Strategaeth i Ysgolion

Cymorth Gwasanaethau Rheng Flaen	Cyllid Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau i gynnal lefel briodol o wasanaeth trwy'r adran TGCh i ddarparu cymorth o bell ac ar y safle yn unol â CLGau penodol. Cymorth ychwanegol i reoli prosiectau mewn perthynas ag Ysgolion yr 21ain Ganrif a phrosiectau penodol eraill.
Costau Trwydded Capita	Caniatáu trosglwyddo data rhwng yr ysgolion a systemau data'r ALI.

Nodweddion newydd ar gyfer 2020/2021

Atodiad 2

Gwasanaeth	Disgrifydd
Cronfa Gynaliadwyedd Rhaglen Hwb TGCh Ariennir gan RhCT yn rhan o'r CLG yma	• Trwy'r CLG yma bydd yr Awdurdod Lleol yn ariannu gwella, rheoli a chynaliadwyedd yr offer rhwydwaith gan gynnwys: • Switsys rhwydwaith craidd ac ymylol, • Cabinetau, • Pwyntiau Mynediad Di-wifr, • Ceblau Asgwrn Cefn a Phwyntiau Gollwng, • Yr holl Weinyddion ar gyfer gwasanaethau diweddarau Windows ac Apple.
Cronfa Gynaliadwyedd Rhaglen Hwb TGCh Yr Ysgolion a Gyllidwyd / Cyfrifoldeb	• Bydd ysgolion yn elwa o gyllid ychwanegol ar gyfer adnewyddu eu hoffer i ddefnyddwyr am y tro cyntaf rhwng 2020 a 2022. • Bydd enghreifftiau o'r offer yn cynnwys gliniaduron, Chromebooks ac iPads. • Bydd gofyn i ysgolion wneud penderfyniadau ynglŷn â sut i dalu am offer newydd o'u cyllideb yn y dyfodol. • Bydd hyn yn ddisgwyliad craidd o'r cynllun cyllideb dirprwyedig ac mae'n cyd-fynd ag athroniaeth lle mae TGCh yn cael ei ystyried yn gyfleustod craidd yn yr un modd â dŵr, nwy a thrydan. • I fod yn gymwys i dderbyn yr offer ychwanegol yn rhan o'r CLG yma, mae'r ysgolion yn cytuno i'r cyfrifoldeb i adnewyddu'r offer o fewn 5 i 7 mlynedd.
Proses Rheoli Newid	○ Un pwynt cyswllt ar gyfer cymorth ar gyfer seilwaith craidd a newid cyfluniad i gefnogi gofynion gweinyddol ac addysgol.

Enghreifftiau o Dasgau sydd Angen Prosesau Rheoli Newid.

Tasg	Cyfrifoldeb	Wedi cynnwys yn y CLG?	Amserlen	Proses
Switsys Craidd	ALI	Ydy		
Switsys Ymylol	ALI	Ydy		
Cebiau Asgwrn Cefn	ALI	Ydy		
Cebiau Pwyntiau Gollwng	ALI	Ydy		
Pwyntiau Mynediad (symud neu ddod â gwasanaeth i ben)	ALI	Ydy		Proses Rheoli Newid
Cebiau Pwyntiau Mynediad	ALI	Ydy		
Rheoli Ffurfweddu Switsys	ALI	Ydy		Proses Rheoli Newid
Cabinetau a Lleoliadau Ffisegol	ALI	Ydy		Proses Rheoli Newid
Adnabod Gofynion Craidd ac Ymylol Ychwanegol	Ysgolion	Ydy		Proses Rheoli Newid
Systemau Amgylcheddol (Tân, Mynediad, Teledu Cylch Cyfyng, Taliadau)	Ysgolion			
Nodi Newidiadau i Ofynion Seilwaith	Ysgolion			Proses Rheoli Newid
Ychwanegu gwasanaethau ychwanegol sy'n darparu gwasanaethau rhwydwaith (Pwyntiau Mynediad Cludadwy, darparwyr DHCP ac ati)	Ysgolion			Proses Rheoli Newid
Dyfeisiau Seiliedig ar IP (sganiwr, llungopiwr)	Ysgolion			Proses Rheoli Newid (3ydd parti)

Atodiad B

CYTUNDEB LEFEL GWASANAETH 2021/22 – GWASANAETHAU TGCh CRAIDD

1. Amlinelliad o'r Gwasanaeth

Mae'r Gwasanaeth TGCh **yn wasanaeth cymorth mewnol** sy'n ymrwymo i ddatblygu gwasanaeth TGCh hwylus a chost-effeithiol i'r Cyngor a'i ysgolion. Bydd yn parhau i wneud ei orau glas i wella a datblygu ansawdd y gwasanaeth sydd ar gael.

Mae Gwasanaethau TGCh yn rhan o Gyfarwyddiaeth Gofal i Gwsmeriaid a TGCh, o dan Gyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol.

Mae'r ddogfen yma'n amlinellu'r Gwasanaethau TGCh craidd wedi'u cynnwys yn y costau a gafodd eu dyrannu i chi yn rhan o fformiwla'ch ysgol o dan TGCh/Band Eang ar gyfer 2019/20. Bydd hyn yn llunio sylfaen Cytundeb Lefel Gwasanaeth – Gwasanaethau TGCh craidd.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn berchen ar drwyddedau i bob ysgol yn Rhondda Cynon Taf ddefnyddio holl wasanaethau TGCh craidd (gweler Atodiad 1 am restr o'r holl fodiwlau).

Cyfrifoldebau'r ALI

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, ac yntau'n landlord corfforaethol, yn berchen ar holl offer adnewyddu Technoleg Addysg HWB sydd newydd eu gosod, a'u rheoli, gan gynnwys cabinetau, switshys cyfnewid rhwydwaith 'Core' ac 'Edge', pwyntiau mynediad Wi-Fi, ceblau 'Backbone' a 'Drop Point' a'r holl weinyddion wedi'u darparu ar gyfer gwasanaethau diweddarau Windows ac Apple. (Gweler Atodiad 2 am restr o'r holl offer, gan gynnwys yn y rhaglen adnewyddu).

Nodwedd Newydd ar gyfer 2021/22

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, ac yntau'n landlord corfforaethol, yn rheoli neu'n monitro holl swyddogaethau gweinyddion mewn ysgolion. Y rheswm dros hyn yw rhoi cymorth i uwch arweinwyr i fonitro a gwerthuso pob swyddogaeth rhwydwaith yr ysgol a sicrhau diogelwch defnyddwyr terfynol. Trwy'r swyddogaethau yma, bydd yr ALI yn rhoi cymorth i ysgolion i wneud y canlynol:

- ✦ Sicrhau bod asiantau cymorth 3ydd parti yn cwblhau gwaith yn unol â safonau a pholisïau'r ALI, gan gynnwys rheoli gweinyddion, cyfeiriadau rhwydweithiau a darpariaeth DHCP lle bo'n berthnasol.
- ✦ Darpariaeth Gweinydd Atgyweirio Namau ar gyfer gwasanaethau Microsoft ac Apple

Cyfrifoldebau Cleient yr Ysgol

Ariannir gan yr ysgol / Cyfrifoldeb yr ysgol

- Bydd ysgolion yn elwa ar gyllid ychwanegol er mwyn adnewyddu eu hoffer defnyddwyr terfynol yn gychwynnol rhwng 2020 a 2022. Bydd enghreifftiau o'r offer yn cynnwys gliniaduron, Chromebooks ac iPads.
- Bydd hi'n ofynnol i ysgolion wneud penderfyniadau o ran cyllid yn unol â'u cyllidebau ar gyfer adnewyddu offer yn y dyfodol.
- I fod yn gymwys i dderbyn yr offer ychwanegol yn rhan o'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth yma, mae'r ysgolion yn cytuno i fod yn gyfrifol am adnewyddu'r offer yma o fewn 5 i 7 mlynedd.

2. Nodweddion Allweddol y Gwasanaeth

Mae Cytundeb Lefel Gwasanaeth – Gwasanaethau TGCh Craidd yn rhoi'r hawl i ysgolion wneud y canlynol:

- Defnyddio'r holl feddalwedd a gwasanaethau wedi'u rhestru yn Atodiad 1 a fydd yn sicrhau diogelwch a chywirdeb rhwydweithiau'r ysgol a'r Cyngor.
- Gwaith cynnal a chadw y feddalwedd a gwasanaethau craidd
- Bod yn un pwynt cyswllt ar gyfer unrhyw gamau uwchgyfeirio mewn perthynas â'r gwasanaethau TGCh craidd sydd wedi'u darparu
- Darparu a gwella meddalwedd SIMS yn unol â'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth SIMS

Dydy'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth yma ddim yn cynnwys gwasanaethau cymorth y cwricwlwm sydd wedi'u nodi yng Nghytundeb Lefel Gwasanaeth Cwricwlwm Ysgolion TGCh ar wahân.

Mae Cytundeb Lefel Gwasanaeth – Gwasanaethau TGCh Craidd yn rhoi'r hawl i ysgolion wneud y canlynol:

- Defnyddio holl offer adnewyddu Technoleg Addysg HWB i gyflawni'r cwricwlwm a chynnal holl swyddogaethau gweinyddu'r ysgol yn unol â chytundeb defnyddwyr e-bost RhCT a'r rhyngrwyd.
- Cefnogi, cynnal a chadw ac adnewyddu seilwaith y rhwydwaith craidd ym mhob sefydliad, yn seiliedig ar gyflawniad, swyddogaeth ac oes trwy'r cytundeb cynaliadwyedd.
- Bod yn un pwynt cyswllt ar gyfer unrhyw gamau uwchgyfeirio mewn perthynas â'r gwasanaethau seilwaith TGCh craidd sydd wedi'u darparu.
- Proses rheoli dewis ar gyfer newidiadau i ffurfweddiad a chyflawniad offer adnewyddu Technoleg Addysg HWB wedi'i osod.

3. Trefniadau Ariannol

Mae ysgolion yn derbyn dyraniad o gyllid drwy'r Cynllun Rheoli Ysgolion yn Lleol i brynu'r gwasanaeth yma. Dyma'r gost ar gyfer 2020/21:

Ysgolion Cynradd/Uwchradd ac Unedau Atgyfeirio Disgyblion	Dosbarth derbyn i Flwyddyn 6	£22	Mae'r pris uwch yn adlewyrchu'r gwelliannau sylweddol yng ngwasanaethau digidol wedi'u darparu i bob ysgol, gan gynnwys cydnerthedd digidol, gwasanaethau adfer data a chreu copïau wrth gefn yn unol â safonau technegol HWB.
Ysgolion Uwchradd	Blynyddoedd 7-11	£36	
Ysgolion Pob Oed	Dosbarth derbyn i flwyddyn 11	Yn seiliedig ar nifer y disgyblion ym mhob ystod oedran fel yr uchod.	

Mae'r dyraniad ariannol a'r costau yn gyfartal a'r canlyniad yw effaith "niwtral o ran cost".

Gwneir y taliad bob blwyddyn trwy drosglwyddiad mewnol (trwy'r llyfrau) ar gyfer ysgolion sydd heb eu llyfr sieciau eu hunain a thrwy anfoneb ar gyfer ysgolion â llyfr sieciau.

Dydy cost y gwasanaeth hwn ddim yn cynnwys gwaith gwella neu newidiadau angenrheidiol i galedwedd a meddalwedd fel yr amlinellir ym map ffordd technegol Capita ES neu unrhyw wasanaethau ychwanegol y tu hwnt i'r rhai a nodir yn Atodiad 1.

4. Swyddog Cyswllt

Josie Read
Swyddog Cyswllt Cwsmeriaid
TGCh, Tŷ Elái, Trewiliam, Tonypany
CF40 1NY
E-bost: DesgGwasanaethTGCh@rhondda-cynon-taf.gov.uk
Rhif ffôn: (01443) 744064

Atodiad 1

Gwasanaethau TGCh Craidd ar gyfer 2021/22

Gwasanaeth	Disgrifydd
Band eang Cysylltedd	Cysylltedd fibr cyflym iawn â'r rhyngrwyd. Mynediad diogel, wedi'i reoli'n ganolog a chymorth i'r rhyngrwyd a systemau busnes ysgolion trwy Rwydwaith Prosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus (PSBA) Llywodraeth Cymru. Lled band; Ysgolion cynradd <300 o ddigybllion 100Mbps Ysgolion cynradd >300 o ddisgybllion 300Mbps Ysgolion Uwchradd 300Mbps i 1GB
<i>Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yr hawl i dynnu cysylltedd band eang unrhyw sefydliad nad yw'n cymryd camau addas i sicrhau bod staff a disgyblion yn defnyddio'r cysylltedd yn ddiogel ac yn briodol.</i>	

Gwasanaeth	Disgrifydd
Meddalwedd hidlo'r we/rhyngrwyd (WebSafe)	Er eich diogelwch a diogelwch eich defnyddwyr – Meddalwedd i helpu i atal pobl rhag cyrchu deunydd anaddas neu faleisus ar y rhyngrwyd. Mae'r feddalwedd wedi'i rheoli, ei chynnal a'i diweddarau'n ganolog ar ran eich ysgol i leihau'r risg o feirysau ar rwydwaith eich ysgol a llygru posibl data. Mae ar gael ar gyfer pob cyfrifiadur bwrdd gwaith a dyfais symudol ar y rhwydwaith yn eich ysgol. Dydy'r feddalwedd ddim yn cymryd lle defnyddio'r rhyngrwyd mewn ffordd ddiogel a phriodol ac mae pob ysgol yn gyfrifol am sicrhau bod staff wedi llofnodi 'Polisi a Chanllawiau E-bost RhCT a Defnydd Derbyniol'. Rhaid i ysgolion sicrhau bod pob disgybl yn deall defnydd diogel a phriodol o'r rhyngrwyd. Mae'n bosibl y bydd ysgolion yn gwneud i ddisgyblion hŷn lofnodi cytundeb defnydd priodol.

Datrysiaid Gwrth-feirws (McAfee) <i>Ar gael ar gyfer pob dyfais Windows wedi'i chynnal ar y rhyngwrwyd yn eich ysgol.</i>	Er eich diogelwch a diogelwch eich defnyddwyr – Meddalwedd i helpu i atal pobl rhag cyrchu neu weld maleiswedd maleisus megis feirysau, ymwelwyr diwahoddiad ac ysbïwedd. Mae'r datrysiaid wedi'i reoli, ei gynnal a'i ddiwedddaru'n ganolog ar ran eich ysgol i leihau'r risg o feirysau ar rwydwaith eich ysgol a llygru posibl data.
Rheoli e-byst yr ysgol	Er eich diogelwch a diogelwch eich defnyddwyr – Mae datrysiaid wedi'i reoli, ei gynnal a'i ddiwedddaru'n ganolog ar ran ysgolion gan ddarparu diogelwch e-byst, hidlo er mwyn sicrhau mai dim ond e-byst dilys, heb fygythiad, yn cael eu hanfon a'u derbyn. Amddiffyn e-byst ysgolion rhag bygythiadau e-bost a sbam uwch a lleihau'r risg o golli data trwy e-bost. Fel gwelliant i'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth presennol, bydd pob ysgol yn symud ei gwasanaethau e-bost craidd ar gyfer uwch arweinwyr a gweinyddwyr i seilwaith e-bost HWB.
Wal dân ganolog ysgolion / WebSafe	Er eich diogelwch a diogelwch eich defnyddwyr – Diogelu rhwydwaith pob ysgol rhag ymosodiad allanol gan ystod o fygythiadau seiber.
Datrysiaid SIMS canoledig a gwasanaeth cadw copi wrth gefn:- • Copi wrth gefn – Gweinyddu • Copi wrth gefn – Cwricwlwm • Trwyddedau ECI • Trwyddedau Citrix	Sicrhau bod ysgolion yn cydymffurfio'n gyfreithiol â thrwyddedau SIMS CAPITA a'u bod wedi'u rheoli mewn ffordd ragweithiol a diogel. Mae hyn yn cynnwys creu copi wrth gefn o ddata SIMS hanfodol pob ysgol y bydd modd ei adfer os bydd problem. Mae'r system yma â gwesteiriwr yn dirymu'r angen i ysgolion unigol reoli proses cadw copi wrth gefn o'u cronfeydd data SIMS.
Gwasanaeth	Disgrifydd
Desg Gwasanaeth TGCh	Eich un pwynt cyswllt â TGCh i geisio cyngor, gofyn am gymorth neu uwchgyfeirio unrhyw broblemau gweithredol gyda gwasanaethau TGCh craidd. Darparu gwaith cyfathrebu rhagweithiol, diwedddaru a monitro o systemau canolog ysgolion canolog a rhwydweithiau lleol ysgolion.

RhCT Digidol – Ein Strategaeth i Ysgolion

Offer Meddalwedd Cysylltu o Bell (Centrastage trwy Redstore)	Rhoi cyfle i garfanau TGCh a SIMS ddarparu gwasanaethau cymorth o bell i ddyfeisiau ar y rhwydwaith mewn ysgolion. Dull o gadw rhestr o'ch asedau TGCh sy'n cysylltu â rhwydwaith y Cyngor. Yn ogystal â hynny, mae'n rhoi cyfle i ni reoli proses ddiweddarau patsys diogelwch e.e. Microsoft i'ch dyfeisiau bwrdd gwaith a gweinyddion i sicrhau cywirdeb rhwydweithiau'r Cyngor ac ysgolion.
Microsoft Academy*	Rhoi cyfle i bob ysgol fanteisio ar raglen Microsoft IT Academy ar gyfer hyfforddiant ar-lein gan helpu athrawon i ddod yn arbenigwyr MS Office trwy gynnig arholiadau am ddim i athrawon a disgyblion.
Cymorth Gwasanaeth Rheng Flaen	Cyllid ELL i gynnal lefel briodol o wasanaeth trwy adran TGCh i ddarparu cymorth o bell a chymorth ar y safle yn unol â Chytundebau Lefel Gwasanaeth penodol. Cymorth rheoli prosiect ychwanegol mewn perthynas ag Ysgolion yr 21ain Ganrif a phrosiectau penodol eraill.
Costau Trwydded Capita	Er mwyn trosglwyddo data rhwng systemau data ysgolion a'r ALL.

Atodiad 2

Gwasanaeth	Disgrifiydd
Rhaglen HWB TGCh Cronfa gynaliadwyedd. Ariannir gan RCT yn rhan o'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth yma.	- Bydd yr Awdurdod Lleol yn ariannu gwaith gwella, rheoli a chynnal offer y rhwydwaith trwy'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth yma, gan gynnwys: - Switshys cyfnewid rhwydwaith 'Core' ac 'Edge', - Cabinetau - Pwyntiau mynediad Wi-Fi, - Cebiau 'Backbone' a 'Drop Point' - Holl weinyddion wedi'u darparu ar gyfer gwasanaethau diweddarau Windows ac Apple
Rhaglen Hwb TGCh Cronfa Gynaliadwyedd. Ariannir gan yr ysgol / Cyfrifoldeb yr ysgol	- Bydd ysgolion yn elwa ar gyllid ychwanegol er mwyn adnewyddu eu hoffer defnyddwyr terfynol yn gychwynnol rhwng 2020 a 2022. Bydd enghreifftiau o'r offer yn cynnwys gliniaduron, Chromebooks ac iPads. - Bydd hi'n ofynnol i ysgolion wneud penderfyniadau o ran cyllid yn unol â'u cyllidebau ar gyfer adnewyddu offer yn y dyfodol.
Gwasanaeth	Disgrifiydd

	• Bydd hyn yn ddisgwyliad craidd y cynllun cyllideb ddirprwyedig ac yn cyd-fynd ag athroniaeth lle ystyrir bod TGCh yn wasanaeth craidd yn yr un modd â dŵr, nwy a thrydan. • I fod yn gymwys i dderbyn yr offer ychwanegol yn rhan o'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth yma, mae'r ysgolion yn cytuno i fod yn gyfrifol am adnewyddu'r offer yma o fewn 5 i 7 mlynedd.
Proses Rheoli Newid	● Un pwynt cyswllt i roi cymorth o ran seilwaith craidd a newid ffurfweddiad i gynnal gofynion gweinyddol ac addysgol.

Enghreifftiau o Dasgau lle mae angen Prosesau Rheoli Newid

Tasg	Cyfrifoldeb	Cynnwys y Cytundeb Lefel Gwasanaeth	Amserlen	Proses
Switsys 'Core'	ALI	✓		
Switsys 'Edge'	ALI	✓		
Ceblau 'Backbone'	ALI	✓		
Ceblau 'Drop Point'	ALI	✓		
Pwyntiau Mynediad (symud neu wasanaeth yn dod i ben)	ALI	✓		Proses Rheoli Newid
Ceblau Pwynt Mynediad	ALI	✓		
Rheoli Ffurfweddiad Switsys	ALI	✓		Proses Rheoli Newid
Cabinetau a Lleoliadau	ALI	✓		Proses Rheoli Newid
Nodi Gofynion 'Core' ac 'Edge' Ychwanegol	Ysgolion	✓		Proses Rheoli Newid
Systemau Amgylcheddol (Tân, Mynediad, Teledu Cylch Cyfyng, Taliadau)	Ysgolion			
Nodi Newidiadau i Ofynion Seilwaith	Ysgolion			Proses Rheoli Newid
Ychwanegu gwasanaethau sy'n darparu gwasanaethau rhwydwaith (Pwyntiau Mynediad symudol, darparwyr DHCP, ac ati)	Ysgolion			Proses Rheoli Newid
Dyfeisiau Ychwanegol yn seiliedig ar Brotocol y Rhyngwyd (IP) (peiriant sganio, llungopiwr)	Ysgolion			Proses Rheoli Newid (3ydd parti)

Nodweddion newydd ar gyfer 2021/2022

Gwasanaeth	Disgrifydd
Rheoli'r Gweinydd	Bydd yr Awdurdod Lleol yn ariannu gwaith gwella, rheoli a chynnal offer y rhwydwaith trwy'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth yma, gan gynnwys: - Rheoli'r Gweinydd (gan gynnwys cyfeiriadau rhwydweithiau a darpariaeth DHCP) - Darpariaeth gweinyddion patsio ar gyfer gwasanaethau Microsoft ac Apple Lle nad yw gweinyddion ysgolion wedi'u cynnal gan yr ALI, bydd ysgolion yn rhoi mynediad i'r ALI i helpu i lynu wrth delerau'r Safonau Digidol Cenedlaethol. Bydd mynediad ar gael i asiantau cymorth trydydd parti sy'n cydymffurfio â safonau cytunedig ar gyfer cymorth defnyddiwr terfynol.
Gwasanaeth	Disgrifydd
Cadw Data Wrth Gefn	Trwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth uwch, bydd yr Awdurdod Lleol yn ariannu proses cadw copi wrth gefn o holl ddata ysgolion, cwricwlwm a SIMS trwy wasanaeth cydnerth, ardystiedig sy'n cydymffurfio â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR). Er mwyn cydymffurfio'n llawn â GDPR a diogelu disgyblion ac arweinwyr ysgolion, bydd hi'n ofynnol i bob ysgol ddefnyddio'r gwasanaeth yma o fis Ebrill 2021. Bydd manylion llawn y gwasanaeth yn cael eu cynnwys mewn atodiad i'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth diwygiedig ar gyfer 2021.

Atodiad C

Gwasanaethau cymorth trydydd parti sy'n cydymffurfio â chytundebau technegol a gweithio'r ALL.

- Mae penaethiaid a chyrff llywodraethu yn gyfrifol am y gwasanaethau maen nhw'n eu caffael gan ddarparwyr trydydd parti ar gyfer cymorth dyfeisiau defnyddiwr terfynol a gwasanaethau technegol a digidol yn eu hysgolion.
- Lle mae ysgol yn cyflogi darparwr trydydd parti ar gyfer gwasanaethau cymorth defnyddiwr terfynol, dyma ei hatgoffa bod y Cyngor yn berchen ar holl offer y rhwydwaith, ac yn eu rheoli, fel y landlord corfforaethol. Does dim modd ychwanegu na newid offer y rhwydwaith heb ganiatâd ysgrifenedig y Cyngor trwy'r broses rheoli newid wedi'i chyhoeddi.

Gofynion Technegol a Gweithio Sylfaenol

- Mae'n ofyniad sylfaenol bod pob ysgol yn sicrhau ei bod yn bodloni'r holl Safonau Seilwaith Digidol Addysg Cenedlaethol.
- Dyma atgoffa arweinwyr ysgolion bod rhaid iddyn nhw wneud y canlynol i gydymffurfio â'r safonau uchod:

Defnyddio Rhwydwaith Prosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus (PSBA) ar gyfer holl gysylltedd â'r rhyngwyd yn yr ysgol.

PSBA yw'r datrysiad mwyaf cost-effeithiol i ysgolion ddiwallu eu hanghenion digidol orau. Derbynnir bod ysgolion yn gweithredu gydag adnoddau cyfyngedig a bod penaethiaid a llywodraethwyr yn wynebu heriau o ran cyfiawnhau pam mai'r PSBA yw'r datrysiad gorau o ystyried cynigion â phrisiau deniadol gan rai darparwyr. Serch hynny, mae nifer o fuddion â gwerth ychwanegol yn rhan o'r gwasanaeth PSBA nad yw darparwyr masnachol yn eu cynnig.

Wrth i bobl dibynnu'n fwy ar wasanaethau digidol a thechnoleg ar gyfer addysg a bywyd bob dydd, mae'n dod yn fwyfwy pwysig i sicrhau bod pob agwedd ar wybodaeth a data ar-lein yn ddiogel. Wrth i'r rhyngwyd dyfu a rhwydweithiau cyfrifiaduron ddod yn fwy ac yn fwy integredig, mae diogelwch rhwydweithiau a data yn un o'r agweddau mwyaf pwysig i unrhyw sefydliad ei hystyried, gan gynnwys ysgolion.

Bydd diogelwch rhwydweithiau yn helpu i'ch diogelu chi rhag ymosodiadau seiber. Mae hefyd yn sicrhau bod eich data yn aros yn ddiogel. Gall seilwaith diogelwch rhwydweithiau sefydlog ac

effeithlon ddarparu sawl lefel o ddiogelwch i'ch ysgol, gan helpu i amddiffyn eich systemau a lleihau'r risg o fod yn destun ymosodiad neu achos o ddifrodi neu ddwyn data.

Mae'r Safonau yma'n dilyn cyngor ac arweiniad wedi'u darparu gan Gyngor Seiberddiogelwch Cenedlaethol (NCSC) sy'n rhan o Bencadlys Cyfathrebu Llywodraeth y DU (GCHQ) – prif asiantaeth deallusrwydd, seiber a diogelwch y DU.

Mae safonau a pholisïau eraill y mae rhaid i ysgolion lynu wrthyn nhw mewn perthynas â diogelwch rhwydweithiau yn cynnwys:

- Cydymffurfio â phob agwedd ar bolisi GDPR Rhondda Cynon Taf.
- Cydymffurfio â gofynion uwch y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.
- Darparu copi wrth gefn cydnerth o holl ddogfennau sy'n seiliedig ar yr ysgol, deunyddiau addysgu a dysgu a gwaith arholi ac asesu disgyblion gan ddefnyddio system sy'n diwallu'r gofynion sylfaenol ar gyfer cadw data'n ddiogel yn unol â safonau Rheoli Data Redstore Cwmwl y Cyngor.
- Mynd i gyfarfodydd briffio technegol a chyfarfodydd polisi'r Cyngor bob tymor.
- Ymgysylltu'n llwyr â phroses rheoli newid y Cyngor cyn gweithio ar unrhyw agwedd ar seilwaith y rhwydwaith.
- Dylai ysgolion sicrhau bod gyda nhw gynllun gwella a pholisi 'Cydnerthedd Digidol' cyfredol.

Mae'r Cyngor yn deall ei bod hi'n bosibl y bydd ysgolion yn dymuno cynnal eu contractau gyda'u darparwr gwasanaeth cymorth defnyddiwr terfynol presennol. Gall ysgolion gaffael cymorth trydydd parti ar gyfer eu dyfeisiau defnyddiwr terfynol, yn amodol ar ddeall a mabwysiadu'r safonau sydd i'w gweld isod.

- Lle mae gwasanaethau yn cael eu darparu gan fusnesau neu unig fasnachwyr, gan gynnwys peirianwyr wedi'u cyflogi gan y busnesau hynny sy'n gweithio mewn ysgolion i ddarparu cymorth defnyddiwr terfynol a chymorth o ran rhwydweithiau, bydd angen i ysgolion sicrhau eu bod nhw'n diwallu holl feini prawf technegol a chyflogaeth gofynnol y Cyngor.
- Bydd hi'n ofynnol i ddarparwyr cymorth trydydd parti sy'n gweithio ar ddyfeisiau wedi'u cysylltu â rhwydweithiau ysgolion nodi manylion y gwasanaethau maen nhw'n eu darparu i'r Cyngor er mwyn sicrhau eu bod nhw'n diwallu'r gofynion technegol a gweithredol sylfaenol. Bydd archwiliadau cydymffurfio blynyddol yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod ysgolion yn diwallu'r safonau yma.

Mae'r Cyngor yn gofyn bod y safonau yma ar waith i helpu arweinwyr ysgolion a llywodraethwyr i wneud y canlynol:

- Diogelu pob disgybl,

- Diogelu ac amddiffyn staff ysgolion (a hynny'n ddigidol),
- Amddiffyn hawl disgyblion trwy gydnerthedd a diogelwch data.

○ Er bydd ysgolion yn dewis cyflogi trydydd parti i reoli eu dyfeisiau defnyddiwr terfynol, dyma atgoffa ysgolion mai'r corff llywodraethu a'r Pennaeth sy'n atebol i'r Cyngor am y ffordd y mae'r trydydd parti yn gweithredu, a sut mae'n sicrhau diogelwch ei ddisgyblion a staff.

Er mwyn rhoi cymorth i Benaethiaid a Chyrff Llywodraethu i sicrhau diogelwch pob disgybl, mae angen i'r Cyngor gael mynediad i'r canlynol:

- Pob gweinydd y rhwydwaith a datrysiad wrth gefn sy'n cynnwys dogfennau staff neu ddisgyblion
- Pob dyfais defnyddiwr terfynol i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r safonau technegol gofynnol a'r gofynion diogelwch.

Mae canllawiau ar gael gan y Cyngor trwy'r polisi yma ac yn rhan o'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth – Band Eang ehangach.

Atodiad D

Goblygiadau i arweinwyr ysgolion – Cymorth Technegol

Mae 9 maes allweddol yn y Safonau Seilwaith Digidol Addysg Cenedlaethol. Mae'r meysydd yn cynnwys Safonau a Data Cysylltedd a diogelwch y rhwydwaith.

Safonau Cysylltedd

Mae saith safon i'w gweithredu yn yr adran Safonau Cysylltedd. Y prif safon yw bod rhaid i ysgolion ddefnyddio'r rhwydwaith PSBA fel eu darparwr band eang diofyn. Mae hyn yn sicrhau cywirdeb a diogelwch data a allai gael ei ystyried yn sensitif neu wedi'i ddiogelu. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys pori cyffredinol, anfon a derbyn e-byst neu negeseuon electronig eraill, delweddau CCTV, data cynnydd ac arholiadau, unrhyw wybodaeth a data wedi'u darparu a'u rhannu trwy ddefnyddio Systemau Rheoli Gwybodaeth Ysgolion. Nid bwriad y rhestr yma yw bod yn derfynol. Ei bwriad yw arwain uwch arweinwyr ysgolion a darparwyr cymorth technegol i sicrhau bod data ysgolion yn ddiogel ac yn defnyddio cysylltedd PSBA yn unig.

Diogelwch Data a Rhwydweithiau


Mae deg safon yn yr adran Safonau Diogelwch Data a Rhwydweithiau. Mae canolbwynt y safonau ar gydweithio rhwng ysgolion ac awdurdodau lleol yn sicrhau bod dealltwriaeth glir gan bawb o'r canlynol:

- Y strategaeth ar gyfer rheoli diogelwch rhwydweithiau a data
- Mesurau diogelwch rhwydweithiau i amddiffyn rhag bygythiadau allanol a mewnol i'w rhwydwaith
- Mesurau amddiffyn seiber wedi'u hen sefydlu ar draws caledwedd yr ysgol, gan gynnwys ar ddyfeisiau y mae'r ysgol yn berchen arnyn nhw
- Trefniadau monitro'r rhwydwaith i nodi ymosodiadau ar eu rhwydwaith, a rheoli/monitro mynediad i'r rhyngwyd
- Strategaeth glir o ran ymateb i ddigwyddiadau a'u rheoli
- Cynnal ffurfweddiad diogel ar gyfer pob dyfais a gweithredu patsys diogelwch a diweddariadau pan fyddan nhw ar gael
- Polisi ar gyfer gweithio symudol a rheoli dyfeisiau symudol
- Rhoi prosesau effeithiol ar waith i reoli mynediad defnyddwyr a chyrchfaint i'w rhwydwaith
- Polisi ar gyfer rheoli a defnyddio dyfeisiau storio cyfryngau megis gyriannau USB
- Bod yn effro i'w rolau a chyfrifoldebau o ran seiberddiogelwch

Cyfrifoldebau cliriach ar gyfer Landlordiaid Corfforaethol gan helpu ysgolion i ddiogelu eu disgyblion ac i gadw at Safonau Seilwaith Digidol Addysg Cenedlaethol Llywodraeth Cymru.

Rhoi cymorth i uwch arweinwyr i sicrhau bod eu hysgolion yn glynu wrth y Safonau Digidol. Bydd rôl yr Awdurdod Lleol fel y landlord corfforaethol yn dod yn fwy strwythuredig.

Bydd y landlord corfforaethol yn gyfrifol am seilwaith y rhwydwaith a bydd hi'n ofynnol i ysgolion wneud newidiadau cyn rhoi unrhyw beth sy'n ychwanegol at y rhwydwaith ar waith. Bydd diogelwch pyrth yn cael ei fabwysiadu i sicrhau cywirdeb y rhwydwaith ac i roi cymorth i ysgolion i ddiogelu disgyblion.



Bydd pob gweinydd yr ysgol yn cael ei reoli gan yr Awdurdod Lleol. Serch hynny, bydd cytundebau ar waith i sicrhau bod modd i bartneriaid cymorth rhwydweithiau trydydd parti reoli gweinyddion rhwydweithiau a gweinyddion patsio o ddydd i ddydd, gan weithredu cymorth defnyddiwr terfynol yn unol â safonau cytunedig.

Mae modd gweld gwybodaeth am yr holl Safonau Digidol Cenedlaethol ar [Safonau Seilwaith Digidol Addysg Cenedlaethol](#).

Atodiad E

Manteisio ar Ymagwedd HWB a Chyfrifiadura Cwmwl Microsoft

Ein nod craidd yw adeiladu datrysiad meddalwedd craidd a arweinir gan Microsoft gan adeiladu ar y cytundebau trwydded cenedlaethol, datblygu cysondeb ledled ysgolion ac yn y Cyngor gyda datrysiadau'n seiliedig ar y cwmwl ar gyfer storio digidol, rhannu adnoddau a diogelwch a chywirdeb data.

Mae mynediad, cadernid, cywirdeb, dibynadwyedd a diogelwch yn eiriau allweddol sy'n gysylltiedig â defnyddio a storio data. Mae mynediad yr Awdurdod Lleol ac ysgolion yn creu, defnyddio a rhannu symiau cynyddol o ddata mewn ystod eang o fformatau.

Mae datrysiadau storio'r Cwmwl megis OneDrive yn cynnig mynediad ymhobman, proses cadw copi ddibynadwy, cadernid a diogelwch data ac yn helpu'r Awdurdod Lleol ac ysgolion i gydymffurfio â gofynion cynyddol am ddata mewn amgylchedd diogel.

Gan fod Office 365 ac OneDrive ar gael i holl athrawon a disgyblion ledled Cymru trwy raglen HWB, mae modd i ysgolion gymryd mesurau cost-effeithiol i ddiogelu eu data gyda'r budd ychwanegol o fynediad ymhobman er mwyn gweithio oddi ar y safle. Un nodwedd allweddol y mae storio yn y cwmwl yn ei hwyluso yw'r gallu i fwy nag un person weithio ar ddogfennau. Dyma nodwedd sy'n hyrwyddo ac yn cyflawni nifer o'r amcanion wedi'u nodi yn y Genhadaeth Genedlaethol, Fframwaith Cymwyseddau Digidol a'r Cwricwlwm i Gymru.

O ganlyniad i'r rhesymau yma, bydd y Cyngor yn mabwysiadu'r egwyddor allweddol mai storio yn y Cwmwl sy'n defnyddio OneDrive yn bennaf fydd yn cael ei ddefnyddio mewn ysgolion yn RhCT.

Mae Cyngor RhCT yn defnyddio Microsoft 365 fel ei gynnyrch meddalwedd craidd. Mae'r fersiynau adnabyddus o'r feddalwedd yn cael eu defnyddio gan y mwyafrif o weithwyr er mwyn anfon dogfennau at gydweithwyr, i adrannau ac i ysgolion. Outlook sy'n gael ei ddefnyddio gan amlaf i anfon negeseuon e-bost. Dros y deng mlynedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi dechrau defnyddio'r cwmwl ar gyfer storio data. Mae Office 365 a OneDrive yn cael eu defnyddio fwyfwy gan weithwyr, sy'n effeithiol ac sy'n sicrhau cywirdeb a diogelwch y data.

Mae Rhaglen HWB yn darparu cynhyrchion Microsoft i bob disgybl. Mae'r rhain ar gael trwy'r platfform HWB. Caiff disgyblion lawrlwytho fersiynau trwyddedig o feddalwedd Office 365 ar nifer o'u dyfeisiau, gan gynnwys gliniaduron ac ystod eang o ddyfeisiau symudol.

Mae dewis Office 365 wedi dod â llawer o fanteision o ran cost i'r Cyngor a'r ysgolion. Mae defnyddio'r un feddalwedd drwyddi draw yn hwyluso hyfforddiant effeithiol a'r defnydd o'r rhaglenni sydd yn gwella cynhyrchiant. Mae storio negeseuon e-bost a data yn y cwmwl yn lleihau'r

angen am weinyddion, gan leihau'r gost gyffredinol, y gofod sydd ei angen ar gyfer storio gweinyddwyr a'r egni sydd ei angen i'w pweru yn effeithlon.

Bydd y buddion yma'n helpu i leihau costau yn yr ysgol ac yn y cyfnod yma o galedi ariannol a chyllidebau heriol, bydd hyn o fudd i ddisgyblion trwy ryddhau arian yn uniongyrchol ar gyfer addysg.

Nid cyfarwyddo ysgolion i weithio mewn unrhyw ffordd benodol yw polisi'r Cyngor, na defnyddio meddalwedd benodol at ddibenion addysgu a dysgu. Serch hynny, yn rhan o'i gyfrifoldebau strategol ledled y Cyngor, mae angen egwyddorion allweddol i ddod â chydnerthedd a gwerth am arian. Mae modd cyflawni hyn trwy alinio datrysiadau ar gyfer pob adeilad y Cyngor at ddibenion gweinyddu a darparu gwasanaeth.

Datrysiadau yn y Cwmwl a Chadernid

- Bydd rhagor o ysgolion yn dechrau defnyddio datrysiadau storio yn y Cwmwl ar gyfer rheoli storio data ac adnoddau. Yn RhCT, y datrysiadau yma fydd **Office 365 ac OneDrive** yn bennaf.
- Wrth osod rhai newydd, bydd gweinyddion yn cynnig gwasanaethau swyddogaethau rhwydweithiau sylfaenol a datrysiadau rheoli dyfeisiau yn unig. Nid gallu storio data fydd amcan craidd datrysiadau gweinyddion newydd.
- Dylai ysgolion ystyried defnyddio **Office 365 ac OneDrive** ar gyfer eu datrysiadau rhannu ffeiliau a storio.

Microsoft – y datrysiad meddalwedd 'dewisol' i ysgolion.

- Bydd datrysiadau e-bost craidd yn symud o ddatrysiad a gynhelir gan RCT i ddatrysiad e-bost HWB er mwyn i'r Awdurdod Lleol gyfathrebu â Phenaethiaid ac ar gyfer negeseuon gweinyddu.
- **O fis Medi 2021**, bydd y Cyngor yn anfon e-byst i gyfrifon e-bost HWB yn unig ac anogir pob ysgol i fabwysiadu cyfrifon e-bost HWB ar gyfer pob aelod o staff.
- Anogir ysgolion i ymgymryd â hyfforddiant Office 365 trwy Gonsortium Canolbarth y De i alluogi'r holl staff i ddefnyddio eu cyfrifon e-bost trwy HWB.
- Ystyrir defnyddio cyfrifon nad ydyn nhw'n rhai HWB ar gyfer cyfathrebu a rhannu mewn perthynas â'r gwaith yn risg o dan bolisi Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol gan nad yw pob system e-bost yn cydymffurfio.
- Bydd y Cyngor yn parhau â'i gymorth ar gyfer Rhaglen 'Microsoft Educator'.

Atodiad F

Dysgu o Bell a Dysgu Cyfunol

Yn y ddogfen '*Dyfodol Llwyddiannus*' 2015, mae'r **Athro Donaldson** yn ysgrifennu y dylai athrawon fabwysiadu dull cyfun tuag at ddysgu. **Mewn cyd-destun digidol**, mae 'Dysgu Cyfunol' yn digwydd pan fydd disgybl yn dysgu trwy dull traddodiadol (gan athro mewn ystafell ddosbarth) a thrwy ddull digidol. Mae gan y disgybl reolaeth o ran pryd, ble a sut mae'n dysgu. Mae angen cynllunio hyn yn ofalus i fodloni anghenion disgyblion unigol. Gallai dysgu cyfunol hefyd gynnwys cyfarwyddyd athro, gweithio mewn grŵp, sesiynau tiwtorial, gweithdai, yn ogystal â gweithgareddau megis defnyddio deunyddiau dysgu o bell, gwefannau, deunyddiau rhyngweithio a realiti rhithwir.

Mae 'Strategaeth Ddigidol i Ysgolion' y Cyngor yn nodi'n glir yr angen am ystafelloedd dosbarth digidol i hyrwyddo a chynnal ystod o ddulliau a phrosesau dysgu ac addysgu, gan gynnwys technegau dysgu cyfunol. Yn ein barn ni, dyma'r ddau faes allweddol sydd â'r effaith fwyaf ar allu ystafelloedd dosbarth digidol:

Wrth i'n cymdeithas gysylltu'n fwy mewn ffordd ddigidol ac wrth i sgiliau ein disgyblion ddatblygu, mae modd manteisio'n effeithiol ar gyfleoedd i ddysgu ar draws ystod o blatfformau ac mewn lleoliadau nad oedden nhw'n lleoedd dysgu yn y gorffennol.

Wrth i ysgolion ddatblygu normau a disgwyliadau ar gyfer defnydd digidol yn yr ystafell ddosbarth, mae hefyd yn bwysig datblygu arferion diogel, cyfrifol ac iach wrth i ddisgyblion ymgysylltu ag adnoddau technoleg addysgol gartref a thrwy ddysgu o bell ar-lein. Trwy ddatblygu normau a disgwyliadau o ran defnydd digidol, bydd disgyblion yn ymgysylltu'n fwy, yn fwy cynhyrchol a diogel wrth iddyn nhw ryngweithio â'u hathrawon, cyfoedion, a chynnwys ar-lein gartref. (betterlessons.com)

O ran ysgolion yn RhCT, mae dysgu cyfunol neu ddysgu o bell wedi dod yn strategaeth gynyddol gan alluogi disgyblion i ddysgu a gweithio ar y cyd y tu allan i'r ystafell ddosbarth a'r ysgol.

Mae'r Cyngor yn ceisio ymgysylltu â phob ysgol i alluogi, grymuso a hyrwyddo dysgu o bell a dysgu cyfunol yn offer effeithiol yr anogir ysgolion eu darparu ar gyfer pob disgybl. Y strategaeth yw defnyddio adnoddau HWB i ddatblygu partneriaethau dysgu rhwng ysgolion a sefydliadau megis prifysgolion, sefydliadau addysg bellach a busnesau, gan gynnwys y rhai dramor. Mae gan NASA fodel dysgu o bell sy'n cael llawer o sylw ac sydd wedi annog ymgysylltiad ledled y byd.

Yn fwy diweddar, mae Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â chonsortia rhanbarthol, wedi gweithio i greu Model Dysgu o Bell a Dysgu Cyfunol i ategu menter Aros Gartref Byddwch yn Ddiogel yn rhan o'r ymateb i Covid-19.

Mae'r Cyngor yn llwyr gefnogi'r modelau wedi'u datblygu gan Lywodraeth Cymru ac wedi cymryd camau i sicrhau bod modd i ysgolion weithio gyda phob disgybl trwy'r ddwy fenter. Byddai enghreifftiau'n cynnwys cefnogi rhaglen trwyddedau HWB ar gyfer Office, a rhoi cymorth i ysgolion er mwyn iddyn nhw ymgymryd â Chynllun Trwyddedu Office 365. Er nad yw'n rhan o'i fenter graidd, mae'r Cyngor yn rhoi cymorth technegol i bob ysgol sy'n awyddus i ymgymryd â rhaglen Google Classroom ar HWB.

[Dysgu o Bell LIC](#)

[Dysgu Cyfunol CCD](#)

Atodiad G – Cadw Dysgwyr yn Ddiogel – Safonau Digidol Addysg Cenedlaethol.

Cadw Dysgwyr yn Ddiogel

Mae 9 maes allweddol yn Safonau Seilwaith Digidol Addysg Cenedlaethol. Mae pob maes yn cael effaith ar waith yr ysgol mewn perthynas â chadw dysgwyr yn ddiogel ac amddiffyn hawl y dysgwr.

Safonau Cysylltedd

Mae saith safon i'w cyflawni yn yr adran Safonau Cysylltedd. Y brif safon yw bod rhaid i ysgolion ddefnyddio Rhwydwaith PSBA fel eu darparwr band eang diofyn. Mae hyn yn sicrhau cywirdeb a diogelwch data a allai gael ei ystyried yn sensitif neu wedi'i ddiogelu. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys pori cyffredinol, anfon a derbyn e-byst neu negeseuon electronig eraill, delweddau CCTV, data cynnydd ac arholiadau, unrhyw wybodaeth a data wedi'u darparu a'u rhannu trwy ddefnyddio Systemau Rheoli Gwybodaeth Ysgolion. Nid bwriad y rhestr yma yw bod yn derfynol. Ei bwriad yw arwain uwch arweinwyr ysgolion a darparwyr cymorth technegol i sicrhau bod data ysgolion yn ddiogel ac yn defnyddio cysylltedd PSBA yn unig.

Diogelwch Data a'r Rhwydwaith

Mae deg safon yn yr adran Safonau Diogelwch Data a'r Rhwydwaith. Mae'r safonau'n canolbwyntio ar gydweithio rhwng ysgolion ac awdurdodau lleol i sicrhau bod dealltwriaeth glir ar y cyd o'r canlynol:

- Y strategaeth ar gyfer rheoli diogelwch rhwydweithiau a data
- Mesurau diogelwch rhwydweithiau i amddiffyn rhag bygythiadau allanol a mewnol i'w rhwydwaith
- Mesurau amddiffyn seiber wedi'u hen sefydlu ar draws caledwedd yr ysgol, gan gynnwys ar ddyfeisiau y mae'r ysgol yn berchen arnyn nhw
- Trefniadau monitro'r rhwydwaith i nodi ymosodiadau ar eu rhwydwaith, a rheoli/monitro mynediad i'r rhyngwyd
- Strategaeth glir o ran ymateb i ddigwyddiadau a'u rheoli
- Cynnal ffurfweddiad diogel ar gyfer pob dyfais a gweithredu patsys diogelwch a diweddariadau pan fyddan nhw ar gael
- Polisi ar gyfer gweithio symudol a rheoli dyfeisiau symudol
- Rhoi prosesau effeithiol ar waith i reoli mynediad defnyddwyr a chyrchfaint i'w rhwydwaith
- Polisi ar gyfer rheoli a defnyddio dyfeisiau storio cyfryngau megis gyriannau USB
- Bod yn effro i'w rolau a chyfrifoldebau seiberddiogelwch

[Dod â'ch dyfais eich hun](#)

Atodiad H – Rhaglenni TG Consortiwm Canolbarth y De / Dysgu Proffesiynol

Enghreifftiau 2020

Rhaglen	Testun
Arweinyddiaeth Ddigidol (Cynradd) L1 Ysgol Gynradd Parc y Darren	Dulliau ysgol gyfan tuag at ddysgu digidol ar gyfer ymarferwyr sy'n dechrau'r daith ym maes arwain dysgu digidol.
Arweinyddiaeth Ddigidol (Cynradd) L2 Ysgol Gynradd Tregatwg	Bydd y rhaglen yma'n cefnogi dull arwain effeithiol o ddysgu digidol trwy ddatblygu rhwydwaith ar gyfer rhannu arfer da a chefnogi Arweinwyr Dysgu Digidol i ddatblygu arferion arloesol.
Dinasyddiaeth FfCD Ysgol Gynradd Parc y Darren	Rhannu ac archwilio dull blaengar tuag at ddatblygiad ysgol gyfan llinyn Dinasyddiaeth o'r FfCD.
Creu Tasgau Cyfoethog FfCD Ysgol Pencae	Datblygu ystod o strategaethau ac adnoddau ar gyfer datblygu profiadau addysgu a dysgu er mwyn cefnogi llinyn Cynhyrchu o'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol.
Cydweithio FfCD Ysgol Gynradd Cwm Clydach	Codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd ar gyfer cydweithio ar-lein Magu hyder wrth ddefnyddio offer cydweithio trwy HWB. Datblygu cydweithio ar-lein ar draws y cwricwlwm mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Cynllunio ar gyfer cydweithio.
Data a Meddwl Cyfrifiadurol FfCD Ysgol Gynradd Tregatwg	Deall sut i ddefnyddio data mewn ffordd flaengar ar draws y cyfnodau. Magu hyder wrth ddefnyddio mathau gwahanol o ddata, ffurflenni, cronfeydd data, taenlenni. Datblygu syniadau a thasgau ar gyfer defnyddio data ar draws y cwricwlwm. Datblygu syniadau ar gyfer defnyddio tasgau meddwl cyfrifiadurol ar draws y cwricwlwm.
Dysgu Digidol: FfCD ar draws y cwricwlwm Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern	Mae pob un o'r sesiynau diwrnod wedi'u cyhoeddi yn canolbwyntio ar ddatblygu dysgu digidol ym meysydd gwahanol o'r cwricwlwm. Mathemateg a Rhifedd / Y Celfyddydau Mynegiannol
Rhwydweithiau cydlynwyr FfCD Ysgol Uwchradd Caerdydd Ysgol Gyfun Treorci Ysgol Gyfun Sant Cyres	Dechreuwyd yn yr hydref, 2019. I ymuno, e-bostiwrch matthew.j.humphreys@cscjes.org.uk Rhyngweithio a chydweithio / Canolbwynt meddwl data a chyfrifiadurol Arweinyddiaeth FfCD mewn ysgol uwchradd Datblygu FfCD ym mhob Cyfnod Allweddol

Dysgu Digidol Trawsgyfnod: Ysgolion Codio Arweiniol Ysgol Gynradd Ynys y Barri Ysgol Gyfun Bryncelynnog Ysgol Gynradd Cwm Clydach Ysgol Gynradd Gwaunfarren Ysgol Gynradd Pen-y-bont	Rhannu arfer gorau, adnoddau a datblygu prosiect codau. Y nod o wella sgiliau codio athrawon TGCh a gweithwyr nad ydyn nhw'n arbenigwyr (CA3). Datblygu cyfleoedd codio ar draws y cwricwlwm. Datblygu codio o'r Cyfnod Sylfaen hyd at CA2
Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd	Archwilio adnoddau codio a chysylltiadau â Gwyddoniaeth a Thechnoleg Rhaglen godio cyfrwng Cymraeg
Rhwydwaith Rhanbarthol TGCh (TGAU) Ysgol Gyfun Porthcawl Plasmawr	Dechreuwyd yn yr hydref. I ymuno, e-bostiwrch matthew.j.humphreys@cscjes.org.uk. Rhannu arfer da a datblygu ystod o strategaethau ac adnoddau ar gyfer addysgu TGCh (TGAU).
Rhwydwaith Rhanbarthol TGCh (Lefel A) Ysgol Gyfun y Bont-faen Tonyrefail	Dechreuwyd yn yr hydref. I ymuno, e-bostiwrch matthew.j.humphreys@cscjes.org.uk Rhannu arfer da a datblygu ystod o strategaethau ac adnoddau ar gyfer addysgu TGCh (Lefel A).
Diweddariadau Diogelwch Ar-lein SWGFL Pen-y-bont ar Ogwr/Bro Morgannwg Ysgol Gyfun Pen-coed	Mae'r cyfarfodydd yma'n rhoi gwybodaeth bwysig i ysgolion er mwyn sicrhau eu bod nhw'n effro i'r diweddaraaf am ddatblygiad agweddau ar Ddiogelwch Ar-lein. Bydd y cyfarfodydd yn cefnogi gweithwyr ysgolion cynradd ac uwchradd mewn perthynas ag ystod o faterion diogelwch ar-lein gan gynnwys defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, amddiffyn staff ac ymgysylltu â rhieni.
CYFARFODYDD RHWYDWAITH DIGIDOL CCD Canolfan Menter y Cymoedd, Abercynon	Gwanwyn 2020 / Haf 2020 Cynradd / Uwchradd
Achlysur Dysgu Digidol Rhanbarthol	Canolfan All Nations, Caerdydd, 11 Mawrth 2020

Am ragor o wybodaeth am TGCh a Dysgu Digidol wedi'i arwain gan CCD, e-bostiwrch businessdesk@cscjes.org.uk